# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | 13 Chwefror 2024 |
| **Pwnc:** | PAPUR CYNNIG – TREFNIADAETH YSGOLION<br><br>Cynnig i:<br><br>“Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”. |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ymofyn am farn y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynnig i: “Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn” fel y gall y Pwyllgor Gwaith ei ystyried cyn penderfynu p’un ai i dderbyn y cynnig a bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i gyhoeddi rhybudd statudol. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Dafydd Roberts |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc B Hughes – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Arwyn Hughes<br><br>ArwynHughes3@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Cynghorydd Jackie Lewis<br>Cynghorydd Llinos Medi<br>Cynghorydd Llio Angharad Owen |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i’r Pwyllgor:<br>**A1** Anfon ei farn ymlaen i’r Pwyllgor Gwaith ar y cynnig i:<br>“Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.<br><br>**A2** Anfon ei farn ymlaen i’r Pwyllgor Gwaith ar yr argymhelliad i’r Pwyllgor Gwaith awdurdodi swyddogion i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig.<br><br>**A3** Anfon ei farn ymlaen i’r Pwyllgor Gwaith ar yr argymhelliad i awdurdodi swyddogion i gynnal trafodaeth gyda’r gymuned i roi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol pe bai angen<br><br>**NODER:** Os cyhoeddir rhybudd statudol, bydd gan randdeiliaid 28 diwrnod i wneud gwrthwynebiad statudol i’r cynnig os dymunant wneud hynny. Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn ymateb i’r gwrthwynebiad/gwrthwynebiadau statudol ar ffurf adroddiad gwrthwynebu, a fydd yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad terfynol naill ai i gymeradwyo, gwrthod neu ddiwygio’r cynnig. |

**Os cymeradwyir y cynnig, bydd Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024, a bydd disgyblion o Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell o fis Medi 2024.**

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae strategaethau'r Awdurdod sydd ynghlwm â'r cynnig fel a ganlyn:

### 2.1 Cynllun y Cyngor

Ym mis Mawrth 2023, mabwysiadodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor Gynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'r ddogfen yn rhestru amcanion y Cyngor am y 5 mlynedd dan sylw, a dan y pennawd Addysg, nodwyd y canlynol:

"Ein nod yw gwireddu ein strategaeth 'Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg' trwy fuddsoddi yn arweinwyr, staff, adeiladau a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol."

### 2.2 Cynllun Asedau Corfforaethol y Cyngor 2021-2026

Mae'r cynllun yn cyfeirio at trefniadaeth ysgolion a'r defnydd o ysgolion wedi iddynt ddod yn wag. Cyfeirir hefyd at sut mae'r cynllun yn cyfrannu at y strategaeth effeithlonrwydd ynni corfforaethol.

### 2.3 Cynllun Tuag at Sero Net: 2022-2025

Datganodd Gyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, gan ymrwymo i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030.

O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cytuno ar 'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad tuag at yr argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net.

### 2.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae'r CSGA yn amlinellu gweledigaeth Ynys Môn bod pob disgybl sy'n mynd drwy system addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn cyrraedd 16 oed ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

### 2.5 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi system gadarn ar waith i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth cyllideb y Cyngor a'r tybiaethau fydd yn cael eu cario ymlaen i'r broses flynyddol o osod cyllideb. Bydd y cynllun yn adnabod yr heriau cyllideb rhagamcanol (gofyniad arbedion).

| 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
Gweler Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
Manylion yn y papur cynnig (adran 8)

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
Nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd gan mai papur cynnig yw hwn.

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd gan mai papur cynnig yw hwn.

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**
Gweler Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

Gweler Asesiad Effaith – Atodiad 1.

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol | |
|---|---|
| **4.1** | Pa yrwyr sy'n gorfodi'r newid arfaethedig? |
| **4.2** | Beth yw'r buddion a ragwelir os gwireddir y cynnig? |
| **4.3** | Sut mae'r papur cynnig a'r asesiad effaith yn cydnabod yr effeithiau ar gyfer disgyblion / staff a'r gymuned? Pa effeithiau eraill a ddylid eu hystyried? |
| **4.4** | A yw pob opsiwn amgen rhesymol i gwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Carreglefn wedi'u cynnwys yn y papur cynnig (adran 6)? Os nad ydynt, pa opsiwn/opsiynau amgen rhesymol arall/eraill a ellir eu cynnwys? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| Mae'r papur cynnig yn cyflwyno deilliannau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â'r gost y pen uchaf o holl ysgolion cynradd Ynys |

| |
|---|
| Môn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 ac sydd â 80% o lefydd gweigion ym mis Ionawr 2024.<br><br>Mae'r papur cynnig hwn wedi'i baratoi gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) diwygiedig.<br><br>Oherwydd fod gan Ysgol Carreglefn lai na 10 disgybl cofrestredig ar Bwynt Cyfrifiad Ionawr 2024 (16-1-24), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd â gweithdrefn symlach i gau'n swyddogol. Mae hyn yn ymwneud yn llwyr â chyhoeddi rhybudd o gau – y gofyniad ar gyfer ymgynghoriad cyffredinol yn cael ei hepgor. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Gweler Atodiad 1 – Asesiad Effaith |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler Atodiad 1 – Asesiad Effaith |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler Atodiad 1 – Asesiad Effaith |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Nid oes unrhyw gostau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig hwn.<br><br>Disgwylir i'r cynnig gynhyrchu arbediad refeniw o tua £126k y flwyddyn drwy'r fformiwla ysgolion ddirprwyedig.<br><br>Mae'n bosibl y bydd rhai costau trosiannol tymor byr, yr amcangyfrifir fel a ganlyn:<br><br>2024/25 - £35,000<br><br>2025/26 - £4,000<br><br>2026/27 - £4,000<br><br>2027/28 - £4,000 |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Papur Cynnig – "Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn".<br><br>Atodiad 1 – Asesiad Effaith – gan gynnwys asesiadau effaith Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Chymuned. |

| |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018) |

**PAPUR CYNNIG**

**TREFNIADAETH YSGOLION**

**Y cynnig:**

**"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn".**

**Chwefror 2024**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost at [ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru](mailto:ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru)**

# Cynnwys


CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 3

1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD ........ 5

2. Y CYNNIG ........ 6

3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID ........ 7

4. Y PRIF YRWYR AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFECHELL ........ 9

6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFECHELL ........ 26

7. Y RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL GARREGLEFN ........ 36

8. EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG ........ 39

9. CASGLIAD ........ 40

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae’r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau’r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â’r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac sydd â 80% o leoedd dros ben fis Ionawr 2024.

Mae’r papur cynnig hwn wedi’i baratoi gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018) (cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf (llyw.cymru)) . Bydd yn cael ei ddefnyddio i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen â’r broses drwy gyhoeddi rhybydd statudol i gau ysgol Carreglefn.

Mae’r prif yrwyr newid yn cynnwys:

**Safonau** – Darparu’r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** – Cynyddu capasiti er mwyn datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.

**Adeiladau ac Adnoddau** – Sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel ac addas at y diben.

**Niferoedd Disgyblion / Lleoedd Dros Ben** – Darparu addysg sy’n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

**Ariannol** – Sicrhau y gall ysgolion weithredu’n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau’r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

**Lles, Gofal ac Iechyd** – Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion.

**Cwricwlwm i Gymru** – Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a’r gallu i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.

**Yr Iaith Gymraeg** – – Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i’n holl ddysgwyr.

**Defnydd Cymunedol** – Ehangu’r defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgol gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.

**Datgarboneiddio** – Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.

Byddai angen mynd i’r afael â’r meini prawf hyn.

Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn (Adran 5) wedi'u rhestru isod.
- Ysgol Carreglefn sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru sef £17,200 y disgybl, sydd dros dair gwaith yn uwch na'r gost fesul disgybl ar gyfartaledd ar gyfer Ynys Môn sef £5,240.
- Mae gan Ysgol Carreglefn 80% o leoedd dros ben, gyda dim ond 9 disgybl yn mynychu’r ysgol ar hyn o bryd, gyda 4 ohonynt ym mlwyddyn 6
- Mae’r rhagolygon yr ysgol yn rhagweld y bydd 5 neu lai o ddisgyblion yn mynychu’r ysgol o fis Medi 2024 ymlaen.
- Mae Ysgol Carreglefn wedi cael anhawster penodi pennaeth, ac ar hyn o bryd mae’n rhannu pennaeth gydag ysgol arall. Dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth ar safle'r ysgol. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos.
- Ysgol Carreglefn sydd â'r allyriadau carbon ail uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Ynys Môn, sef 1,167kgCO2e y disgybl, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 217kgCO2e y disgybl.
- Mae cost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o £317,350 yn Ysgol Carreglefn.
- Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gyda disgyblion 4-11 oed yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn heriol o ran bodloni anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.

Mae opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn wedi'u hystyried a'u dadansoddi yn erbyn y prif yrwyr newid (Adran 6). Mae pob dewis arall rhesymol hefyd wedi ei asesu mewn perthynas â’r effaith tebygol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio i ddisgyblion, gan fod Ysgol Carreglefn wedi’i rhestru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) fel ysgol wledig.

Mae ystyried y opsiynau amgen rhesymol wedi arwain y Cyngor i gyflwyno’r cynnig canlynol ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn :
**“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”**
A phe byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno, byddai'n symud ymlaen i gyhoeddi rhybydd statudol ar gynnig o'r fath yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.

O'i wireddu, byddai disgwyl i’r cynnig wireddu’r buddion a ganlyn (Adran 5):

- Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell.
- Gallai'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau'n sylweddol.
- Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.
- Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad refeniw o £126k y flwyddyn
- Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 12.6 $tCO_2e$
- Gellid dyrannu canran uwch o'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau'n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau
- Gellid gostwng costau Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcannol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.

Mae dadansoddiad o effaith debygol y cynnig ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio ar gyfer disgyblion yn gadarnhaol ar y cyfan. Ategir hyn gan ymrwymiad yr Awdurdod i'r canlynol:

- darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw’r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o’r oedran hwnnw gerdded i ac o’r ysgol,
- gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol pe bai angen.

Mae dadansoddiad o effaith debygol y cynnig yn erbyn y gyrwyr allweddol ar gyfer newid hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan, fel yr amlygir yn Adran 6.1.

Mae Asesiad Effaith hefyd wedi’i baratoi, sy’n asesu effaith y cynnig ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac ar y Gymuned, yn ogystal â sut mae’r cynnig yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru’n rheolaidd wrth i ni symud ymlaen â’r cynnig.

Byddai gan Ysgol Llanfechell gapasiti digonol ar gyfer disgyblion o Ysgol Carreglefn (gweler adran 5.7 am ragor o fanylion). **Pe bai’r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024, a disgyblion Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell ym mis Medi 2024.**
Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

## 1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

Mae’r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau’r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â’r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac sydd â 80% o leoedd dros ben fis Ionawr 2024 (CYBLD).

Mae’r papur cynnig hwn wedi’i ysgrifennu yn unol â disgwyliadau’r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).
Gan bod llai na 10 disgybl cofrestredig yn Ysgol Carreglefn ar ddyddiad CYBLD 2024 (16-1-24), mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu Awdurdodau Lleol i ymgymryd a proses fyrrach i gau ysgol yn swyddogol. Yr unig beth sydd rhaid ei wneud ydi cyhoeddi hysbysiad i gau - byddai’r gofyniad i ymgynghori’n gyffredinol yn cael ei hepgor.
Mae’r Papur Cynnig hwn felly yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, gan ofyn am ei benderfyniad i fwrw ymlaen i gyhoeddi rhybydd statudol ar y cynnig.

1.1 Darpariaeth addysg yn ardal Carreglefn

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar geisio canfod datrysiad ar gyfer dyfodol Addysg o fewn ardal Carreglefn, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn.

1.2 Cyn cyrraedd y cynnig (Adran 2) isod, mae’r Cyngor wedi ystyried y canlynol:
- Y gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 3)
- Y gyrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (Adran 4)
- Yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (Adran 5)
- Opsiynau amgen rhesymol i’r cynnig ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell
- Y rhagdybiaeth yn erbyn cau Ysgol Carreglefn (Adran 7).

**2. Y CYNNIG**

Y cynnig yw:
**“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.”**
Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn. Ysgol Llanfechell yw'r ysgol agosaf i Ysgol Carreglefn, wedi ei lleoli 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn

Mae digon o le yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Ysgol Carreglefn.

Nodir y manylion ar gyfer Ysgol Llanfechell isod:

| Manylion arfaethedig Ysgol Llanfechell | |
|---|---|
| Ystod oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Disgyblion | 106 (4-11 oed) |
| Rhif derbyn | 15 |
| Lleoedd Meithrin | 13 |
| Lleoliad | Lleoliad Presennol: Ffordd Y Mynydd, Llanfechell |
| Categori | Cymunedol |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau arfaethedig | Cyfleuster Ysgol Gynradd ar gyfer 106 o ddisgyblion (4-11 oed) |
| Cost y Prosiect a Ragwelir | Ni ragwelir unrhyw gost cyfalaf ychwanegol |

Byddai disgwyl i Ysgol Llanfechell gynnal y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau (fel y disgrifir yn adran 7). Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, anogir pob disgybl, beth bynnag fo'i gefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a chludo a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Mae Ysgol Llanfechell yn darparu darpariaeth cyn ysgol ar hyn o bryd. Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae’r Cylch Meithrin ar safle’r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol a Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.

Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Llanfechell yn parhau i fod ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai'r Cyngor yn dymuno gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol yng Ngharreglefn er mwyn rhoi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad yr ysgol fel y gellir cynnal y ddarpariaeth gymunedol. Gellid cynnal unrhyw weithgareddau lle byddai’r niferoedd dan sylw yn fwy na chapasiti Ysgol Carreglefn yn Ysgol Llanfechell.

Nid oes disgwyl i’r cynnig roi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dan anfantais, ac ni ddisgwylir iddo effeithio’n andwyol ar gyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd.

## 3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID

Nodir isod y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:

1. Safonau

Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod am sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr drwy sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn edrych ar greu'r amodau fel bod penaethiaid, athrawon a disgyblion yn llwyddo.

2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cynyddu'r capasiti i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth. Mae'r cyngor yn ymdrechu i gael ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys llywodraethwyr. Mae angen i ysgolion cynradd fod o faint addas a bod â phennaeth nad yw'n addysgu am ganran sylweddol o'r amser. Byddai hyn yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r pennaeth ymgymryd â swyddogaethau arweinyddiaeth allweddol o fewn yr ysgol neu'r ffederasiwn, gan gynnig profiadau arweinyddiaeth i aelodau staff a chyfrannu at gynllunio olyniaeth.

3. Adeiladau Ysgolion ac Adnoddau

Mae Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau fod pob adeilad ysgol yn cwrdd â disgwyliadau'r 21ain ganrif, yn addas i'r diben, yn y lleoliad cywir, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned.

4. Niferoedd Disgyblion / Lleoedd Dros Ben

Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

5. Ariannol

Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

6. Lles, Gofal ac Iechyd

Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion. Sicrhau bod gan ysgolion amgylcheddau diogel ar gyfer dysgwyr a staff, sydd hefyd yn hyrwyddo parch ac amrywiaeth. Mae ysgolion sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sydd wedi datblygu tiroedd yn feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

7. Cwricwlwm i Gymru

Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, er mwyn bodloni'r pedwar prif ddiben o ddatblygu:

- a. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- b. Cyfranwyr mentrus, creadigol
- c. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- ch. Unigolion iach, hyderus

8. Yr Iaith Gymraeg

Cynnal a gwella darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Y nod yw datblygu gallu disgyblion fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol

9. Defnydd cymunedol

Mae'r Cyngor yn awyddus i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i'r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion a phobl hŷn) ddefnyddio'r ased a'r adnoddau. Bydd hyn yn cefnogi gwytnwch cymunedau ac yn helpu i liniaru effaith tlodi.

10. Datgarboneiddio

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth carbon sero net erbyn 2030. Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.

11. Materion Cyffredinol

Mae'r asesiad hefyd wedi cynnwys materion cyffredinol er enghraifft effaith y llif traffig ac ati.

Trafodir y gyrwyr hyn yn fanylach isod. (Adrannau 4.1 - 4.11)

Mae'r canlynol (Adran 4) yn cymhwyso'r gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer newid ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (gan mai hon yw'r ysgol agosaf at Ysgol Carreglefn).

## 4. Y PRIF YRWYR AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFECHELL

### 4.1 Safonau

#### 4.1.1 Arolygiadau Estyn

Adroddir Estyn ar ansawdd a safonau addysg. Dangosir gwybodaeth o'r arolygiadau Estyn diweddaraf isod:

| Ysgol | Carreglefn* |
|---|---|
| **Dyddiad yr arolygiad** | **Hydref 2015** |
| **Crynodeb** | |
| Perfformiad Presennol yr Ysgol | Digonol |
| Rhagolygon Gwelliant yr Ysgol | Anfoddhaol |
| | |
| **Prif Ganfyddiadau** | |
| Safonau | Digonol |
| Lles | Da |
| Profiadau Dysgu | Anfoddhaol |
| Addysgu | Digonol |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Digonol |
| Amgylchedd Dysgu | Da |
| Arweinyddiaeth | Anfoddhaol |
| Gwella Ansawdd | Anfoddhaol |
| Gweithio mewn Partneriaeth | Digonol |
| ***Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod*** | |

| Ysgol | Llanfechell** |
|---|---|
| **Dyddiad yr arolygiad** | **Chwefror 2020** |
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a dysgu | Digonol ac Angen Gwelliant |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac Angen Gwelliant |
| ***Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod*** | |

**Graddau Estyn – ar ddyddiad monitro Ysgol Carreglefn**

| | |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae'r cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

**Graddau Estyn – ar ddyddiad monitro Ysgol Llanfechell**

| | |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| Da | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| Digonol ac angen gwelliant | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| Anfoddhaol ac angen gwelliant brys | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

***NODER** – Dychwelodd Estyn i gynnal ymweliad monitro (Carreglefn) yn Rhagfyr 2017 a nododd yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Carreglefn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd fis Hydref 2015". Mae'r ysgol wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

**NODER – Dychwelodd Estyn i gynnal ymweliad monitro (Llanfechell) yn Rhagfyr 2021 a nododd yr adroddiad: "Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad Adran 28. Mae'r ysgol wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn. Ni fydd ymweliadau monitro pellach gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn".

Mae'r Awdurdod eisiau sicrhau bod holl blant Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial ac yn cael y profiadau gorau posib.
Byddai'n rhaid i unrhyw foderneiddio / ad-drefnu ysgolion o leiaf gynnal yr agweddau da a nodir gan Estyn a hefyd fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlinellir yn eu hadroddiadau.

Disgwylir y byddai angen i'r strwythur ysgol diwygiedig gyflwyno'r cwricwlwm llawn.

***Cydnabyddir bod adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Carreglefn wedi dyddio, ac y gall perfformiad fod wedi newid ers dyddiad yr adroddiadau hyn.***

Mae adroddiad Estyn ar Ysgol Llanfechell yn dangos y dylai trosglwyddo disgyblion yno (pe bai Ysgol Carreglefn yn cau) gyflawni deilliannau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn. Byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy sy'n darparu gwell cyfleoedd i rannu arbenigedd ac adnoddau staff, ac yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol. Gellir dod o hyd i adroddiadau llawn ac ymweliadau monitro Estyn drwy'r dolenni canlynol:

Adroddiad arolygu Ysgol Carreglefn 2015 (llyw.cymru)
Adroddiad Dilynol Ysgol Carreglefn (llyw.cymru)

Adroddiad arolygu Ysgol Gymuned Llanfechell 2020 (llyw.cymru)
Canlyniad adolygiad gan Estyn Ysgol Gymuned Llanfechell 2021 (llyw.cymru)

**Mae'r prif gasgliadau y gellir eu tynnu o'r gymhariaeth uchod wedi'u rhestru isod.**

- Ar adeg yr arolygiadau diweddaraf gallwn ddod i'r casgliad bod gwahaniaeth yn y safonau a gyflawnwyd yn Ysgol Llanfechell – aseswyd Ysgol Llanfechell yn 'dda', tra aseswyd Ysgol Carreglefn yn ddigonol.
- Barnwyd bod Gofal, cymorth ac arweiniad yn well yn Ysgol Llanfechell (da), nag yn Ysgol Carreglefn (Digonol)
- Aseswyd y barnau ar gyfer lles yn 'dda' yn y ddwy ysgol.

Nid oedd unrhyw amrywiad sylweddol rhwng ysgolion yn erbyn y penawdau 'Addysgu a Dysgu' neu 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth'.

Rhaid nodi mai yn 2015 y cynhaliwyd arolygiad llawn diwethaf Estyn o Ysgol Carreglefn. Mae'r perfformiad yn debygol o fod wedi newid yn y cyfnod hwn.

**4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
Mae'r tabl isod yn nodi ymrwymiad addysgu penodol y Pennaeth yn y ddwy ysgol ym mis Medi 2023.

| Ysgol | Carreglefn | Llanfechell |
|---|---|---|
| Ymrwymiad Addysgu Penodol y Pennaeth % | 70%* | 50% |

*Fis Ionawr 2024, mae Ysgol Carreglefn yn rhannu pennaeth gydag ysgol arall, oherwydd anawsterau recriwtio. Dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth yn Ysgol Carreglefn. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod yr wythnos yn Ysgol Carreglefn, gan ganiatáu diwrnod a hanner yr wythnos yn unig fel amser digyswllt.

Mae gan bennaeth Ysgol Llanfechell ymrwymiad addysgu penodol o 50%.
Mae angen digon o gapasiti ar benaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, o ran amser i ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar wella ysgolion a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r angen i gydbwyso ymrwymiad addysgu penodol gyda'r gofynion arweinyddiaeth cyffredinol o ddydd i ddydd yn her wirioneddol. Mae mynd i'r afael â llwyth gwaith staff yn flaenoriaeth allweddol a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cenhadaeth Ein Cenedl.

**4.3 Adeiladau Ysgolion**

Mae'r tabl isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol o ran graddfa cyflwr yr ysgolion (2023), y gwariant presennol a'r gwariant rhagamcannol yn y dyfodol ar gyfer codi'r cyflwr i lefel addas (nid i ddisgwyliadau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) a p'un a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â hygyrchedd disgyblion anabl.

| Ysgol | Carreglefn | Llanfechell |
|---|---|---|
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) | £317,350 | £532,950 |
| Adeilad yr Ysgol – Arwynebedd Llawr | 340 $m^2$ | 834 $m^2$ |
| Arwynebedd Safle'r Ysgol | 3,120 $m^2$ | 9,985 $m^2$ |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul $m^2$ (Yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr adeilad) | £933 / $m^2$ | £639/ $m^2$ |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul $m^2$ (Yn seiliedig ar arwynebedd safle'r ysgol) | £102 /$m^2$ | £53/ $m^2$ |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul disgybl (yn seiliedig ar niferoedd disgyblion Ionawr 2024) | £35,261 y disgybl | £7,402 y disgybl |
| Gradd Cyflwr* | B | B |
| Nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle | 0 | 0 |
| Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 | Yn rhannol | Yn rhannol |
| Digon o le ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm | Oes | Oes |
| Addasrwydd ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm** | B | B |

**Mae Llywodraeth Cymru yn categoreiddio **cyflwr** adeiladau ysgolion ar raddfa A-D.*

| | |
|---|---|
| *A* | *Fel Newydd* |
| *B* | *Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig.* |
| *C* | *Gweithredol ond angen atgyweirio neu amnewid gweithredol ond mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.* |
| *D* | *Risg difrifol o fethiant.* |

*** Mae Llywodraeth Cymru yn categoreiddio **addasrwydd** adeiladau ysgolion ar raddfa A-D.*

| | |
|---|---|
| *A* | *Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol.* |
| *B* | *Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad, ond nid yw'n cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.* |
| *C* | *Gwael. Dulliau addysgu'n cael eu llesteirio/effaith andwyol ar drefn yr ysgol.* |
| *D* | *Drwg. Mae'r adeiladau'n llesteirio gallu'r staff i gyflwyno'r cwricwlwm yn ddifrifol.* |

Y gwariant wedi'i gyfuno ar gynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn Ysgol Carreglefn a Ysgol Llanfechell yw £850,300. Nid yw'r un o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant anabl. Ar hyn o bryd, nid oes yr un o'r ysgolion mewn sefyllfa i ddarparu amgylcheddau dysgu addas i blant chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr adeiladau a'r ystafelloedd yn Ysgol Llanfechell o leiaf yn cyfateb i'r hyn a geir yn Ysgol Carreglefn.


**4.4 Lleoedd mewn ysgolion**
Mae manylion y niferoedd disgyblion presennol ar y gofrestr, a niferoedd disgyblion ar gyfer y pum cyfrifiad ysgol ddiwethaf (Ionawr) a rhagamcanion disgyblion y dyfodol hyd at 2028 i'w gweld isod.

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys meithrin | Nifer y disgyblion Ionawr 2020 | Nifer y disgyblion Ionawr 2021 | Nifer y disgyblion Ionawr 2022 | Nifer y disgyblion Ionawr 2023 | Nifer y disgyblion Ionawr 2024 | % y lleoedd dros ben Ionawr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 15 | 12 | 10 | 10 | 9* | 80% |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 62 | 66 | 74 | 77 | 72 | 32% |

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 ohonynt ym mlwyddyn 6.

Yn Ionawr 2024, roedd 9 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Carreglefn, gyda 8 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD


Yn Ionawr 2024, roedd 72 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Llanfechell (heb gynnwys Meithrin), gyda 65 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD.




**Rhagolygon pum mlynedd**

Mae'r ffigurau a ddangosir yn y tabl isod yn seiliedig ar ragolygon y penaethiaid ym mis Medi 2023:

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys meithrin | Nifer y disgyblion Medi 2023 | Rhagamcan Medi 2024 | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 9 | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 73 | 74 | 65 | 63 | 59 | 55 |






Mae’r manylion a nodir uchod yn dangos bod lleoedd dros ben sylweddol yn Ysgol Carreglefn (80%) ac Ysgol Llanfechell (32%), a rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn yn disgyn i 5 neu’n is ym mhob blwyddyn o 2024 ymlaen. Rhagwelir hefyd y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng yn gyson yn Ysgol Llanfechell. Rhagwelir y gallai Ysgol Llanfechell fod â 48% o leoedd dros ben erbyn 2028. Gallai'r rhagolwg uchod hefyd gynnwys disgyblion sy'n dod o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.

**Disgyblion sy'n teithio o du allan i'r dalgylch**

Disgwylir i'r Awdurdod gynllunio darpariaeth ysgol o amgylch nifer y disgyblion yn y dalgylch. Mae symudiad disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn gwneud cynllunio darpariaeth ysgol yn anodd. Mae'r ffigyrau isod yn dangos bod canran uchel o blant yn mynychu o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Carreglefn.

| Ysgol | % y disgyblion o du allan i’r dalgylch fis Gorffennaf 2023 |
|---|---|
| Ysgol Carreglefn | 36% (4/11) |
| Ysgol Llanfechell | 27% (23/86) |







Byddai angen i'r ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gael i gwrdd â niferoedd presennol yr ysgolion a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol a bod y system ysgolion yn yr ardal yn gost-effeithlon ac yn effeithiol h.y., yr ysgolion yn llawn, a nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos i 30, tra'n cyfyngu ar nifer y carfannau o fewn unrhyw ddosbarth penodol.

**4.5 Ariannol**
Mae'r tabl isod yn dangos y gost fesul disgybl mewn ysgolion unigol:

| Ysgol | Carreglefn | Llanfechell | Cyfartaledd Cynradd Ynys Môn |
|---|---|---|---|
| Cost fesul Disgybl (2023/24) | £17,200 | £5,524 | £5,240 |
| Sefyllfa Balansau Ysgolion ar 31ain Mawrth 2023 | Arian dros ben cyfwerth â 12% o gyllideb yr ysgol | Arian dros ben cyfwerth â 10% o gyllideb yr ysgol | Arian dros ben cyfwerth â 12% o gyllideb yr ysgol |



- Mae'r tabl a'r siart uchod yn dangos bod amrywiad o £11,676 y disgybl rhwng y ddwy ysgol gynradd, gyda'r ddwy ysgol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn. Ysgol Carreglefn sydd â'r gost fesul disgybl uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru. Mae'r gwahaniaeth mewn gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac nid yw'n gynaliadwy i'r dyfodol.

- Gellid dadlau bod yr ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol fel ffurf o warchodaeth, er mwyn cynnal isafswm lefelau staffio (er enghraifft, i sicrhau cyllid ar gyfer lleiafswm o 1.5 o staff addysgu ar gyfer ysgolion sydd â 15 neu lai o ddisgyblion, neu 2 staff addysgu ar gyfer ysgolion sydd â rhwng 16 a 41 o ddisgyblion) a bod yr ysgolion mwyaf ar eu colled o ganlyniad. Yn 2023/24 derbyniodd Ysgol Carreglefn arian gwarchodaeth trwy'r fformiwla ariannu ysgolion - i gynnal isafswm lefelau staffio.

- Cynyddodd y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Ysgol Carreglefn yn 2023/24 drwy'r fformiwla ariannu ysgolion gyllideb Ysgol Carreglefn 37% neu £46,828, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi'i ddyrannu heb y warchodaeth hon. Dyma un rheswm pam fod y gost fesul disgybl yn uchel iawn yn Ysgol Carreglefn. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan nad yw'n gwneud defnydd effeithlon o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig, tra'n sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu dosbarthu'n gyfartal.

### 4.6 Lles, Gofal ac iechyd

Mae cysylltiad cryf rhwng adeiladau / amgylcheddau ysgol a Lles, Gofal ac Iechyd. Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

Mae'r tabl yn adran 4.3 yn amlygu bod y ddwy ysgol wedi'u categoreiddio i fod yng Ngradd Cyflwr B - Yn weithredol ddiogel ac yn dangos dim ond mân ddirywiad. Ar hyn o bryd, nid yw'r naill na'r llall o'r ysgolion mewn sefyllfa i ddarparu amgylcheddau dysgu addas i blant chwarae yn yr awyr agored.

### 4.7 Cwricwlwm i Gymru

Mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ofod allanol addas cyfyngedig i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir, fodd bynnag mae gofod allanol mwy addas yn Ysgol Llanfechell nag yn Ysgol Carreglefn i gyflwyno'r cwricwlwm.

Mae mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth, trwy gydweithio â chyfoedion o'r un oed mewn ysgol fwy.

### 4.8 Yr Iaith Gymraeg

Mae'r ddwy ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg, a byddai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn gyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r ddwy yng nghategori 3 o ran categori iaith (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith i'r ysgol, mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth). Felly ni fyddai unrhyw newid yn y categori iaith os bydd y cynnig yn caeu ei wireddu.

Fis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref.

Ni fyddai gwireddu'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar y duedd bresennol o welliant yn erbyn Deilliannau 1, 2, 5 a 6 (holl amcanion CSGA sy'n ymwneud â disgyblion oed ysgol gynradd) o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 yr Awdurdod, sef:

**Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
**Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Fforwm Iaith Gymraeg y Cyngor yn monitro cynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod bob chwarter.

Gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

#### 4.9 Defnydd cymunedol

Mae Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cymunedol, a byddai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol.

#### 4.10 Datgarboneiddio

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth carbon sero net net erbyn 2030.

Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Ysgolion cynradd yw'r cynhyrchwyr carbon mwyaf o holl adeiladau'r Cyngor, gydag ysgolion uwchradd yr ail uchaf.

| | Ysgol Carreglefn | Ysgol Llanfechell |
|---|---|---|
| Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth (tCO2e) | 14 | 20 |

Mae amrywiad mawr mewn allyriadau carbon fesul disgybl, fel y gwelir isod:

| | Ysgol Carreglefn | Ysgol Llanfechell | Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd) |
|---|---|---|---|
| kg o Garbon Deuocsid Cyfwerth (kgCO2e) fesul disgybl | 1,167 | 233 | 217 |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y carbon deuocsid cyfwerth fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yn sylweddol uwch nag yn Ysgol Llanfechell, a chyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.

#### 4.11 Materion Cyffredinol

Ystyrir bod y mynediad i Ysgol Carreglefn yn wael. Lleolir Ysgol Carreglefn ar ffordd ddienw, 0.8 milltir oddi ar Ffordd Brynddu. Mae'r ffordd ddienw yn ffordd un lôn, lle nad yw 2 gerbyd yn gallu pasio ei gilydd mewn mannau. Mae gan Ffordd Brynddu 2 lôn mewn mannau, ac un lôn mewn mannau. Mae rhannau o Ffordd Brynddu lle gall 2 gerbyd basio'i gilydd, a rhannau lle na all 2 gerbyd basio'i gilydd. Lleolir Ysgol Carreglefn 3.3 o'r A5025, neu 4.0 milltir o'r B5111.

Mae mynediad digonol i Ysgol Llanfechell. Lleolir Ysgol Llanfechell ar Ffordd y Mynydd. Mae Ffordd y Mynydd yn ffordd 2 lôn mewn mannau, ac un lôn mewn mannau. Mae rhannau o Ffordd y Mynydd lle gall 2 gerbyd basio'i gilydd, a rhannau lle na all 2 gerbyd basio'i gilydd. Lleolir Ysgol Llanfechell 0.3 o Ffordd Brynddu ac 1.6 milltir o'r A5025.

#### 4.12 Casgliadau o'r gyrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

- Mae amrywiad sylweddol yn y gost fesul disgybl rhwng y ddwy ysgol (Ysgol Carreglefn £17,200, Ysgol Llanfechell £5,524). Mae'r ddwy uwchlaw'r Cyfartaledd ar gyfer Ysgolion Cynradd Môn o £5,240. Y gost fesul disgybl yng Ngharreglefn yw'r uchaf yng Nghymru (Cynradd) ar gyfer 2023/24. Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl, a dylai wneud y ddarpariaeth yn fwy cost effeithiol.
- Mae nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal yn ormodol (Ysgol Carreglefn 80%, Ysgol Llanfechell 32%).
- Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn disgyn hyd yn oed ymhellach, gyda niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn yn 5 neu lai bob blwyddyn o fis Medi 2024 ymlaen.
- Mae canran uchel o ddisgyblion yn mynychu o du allan i ddalgylch yr ysgol (Ysgol Carreglefn 36%, Ysgol Llanfechell 27%. Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â hyn.
- Mae cost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (cyfwerth â £35,261 y disgybl) yn Ysgol Carreglefn a £532,950 (cyfwerth â £7,402 y disgybl) yn Ysgol Llanfechell.
- Fis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref.

**Gellir casglu felly bod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal er mwyn darparu model cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.**

O ganlyniad, bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell, ynghyd â opsiynau amgen rhesymol oherwydd eu hagosrwydd (2.2 milltir – Google Maps), yn cael eu hystyried.

## 5. YR HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFECHELL

Amlinellir isod yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell a sut y gallai'r cynnig i **"Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a Chau Ysgol Carreglefn"** fynd i'r afael â nhw:

| | **Heriau allweddol** | **Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw** |
|---|---|---|
| **5.1.Niferoedd disgyblion** | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ganran sylweddol o leoedd dros ben (80% a 32% yn y drefn honno).<br><br>Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf.<br><br>Ysgol Carreglefn – Capasiti heb gynnwys meithrin 46 /Rhagwelir 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen.<br>Ysgol Llanfechell - Capasiti heb gynnwys meithrin 106 /Rhagwelir 55 erbyn 2028.<br>(Mae mwy o fanylion ar gael yn adran 5.8 y papur hwn isod).<br><br>Ysgol Carreglefn - Gorffennaf 2023:<br>• Mae llai na 47% (7/15) o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.<br>• Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch.<br>• Roedd 50% o'r 4 nad oedd yn nalgylch Ysgol Carreglefn yn dod o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 ddisgybl].<br><br>Ysgol Llanfechell - Gorffennaf 2023:<br>• Mae llai na 78% o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.<br>• Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch.<br>• Roedd 1 o'r 23 nad oedd yn nalgylch Ysgol Llanfechell yn dod o ddalgylch Ysgol Carreglefn.<br><br>Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gyda disgyblion 4-11 oed yn cael eu dysgu gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn heriol o ran bodloni anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Rhennir disgyblion Ysgol Llanfechell rhwng 4 dosbarth, gydag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd ym mhob dosbarth. | Mae gan Ysgol Llanfechell ddigon o leoedd dros ben ar gyfer disgyblion o ddalgylch presennol Llanfechell a Charreglefn (gan gynnwys y lleoedd meithrin). Nid oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal.<br>Efallai hefyd y bydd llai o symud disgyblion ar draws dalgylchoedd.<br>Bydd llai o amrywiaeth yn ystod oedran y disgyblion a addysgir yn yr un dosbarthiadau, gyda mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â chyfoedion o'r un oedran. |
| **5.2.Lleoedd dros ben** | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ganran sylweddol o leoedd dros ben (80% a 32% yn y drefn honno).<br><br>Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf.<br><br>Ysgol Carreglefn – Capasiti heb gynnwys meithrin 46 /Rhagwelir 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen. | Mae nifer y lleoedd dros ben wedi'u cyfuno yn debygol o leihau.<br><br>Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell gyda'i gilydd 48% o leoedd dros ben erbyn Medi 2024. (Niferoedd disgyblion wedi'u cyfuno: 79, capasiti wedi'u cyfuno: 152). |

| | Heriau allweddol | Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|---|
| | Ysgol Llanfechell - Capasiti heb gynnwys meithrin 106 /Rhagwelir 55 erbyn 2028.<br>(Mae mwy o fanylion ar gael yn adran 5.8 y papur hwn isod). | Os caiff y cynnig ei roi ar waith amcangyfrifir y bydd canran y lleoedd dros ben yn gostwng i 25% erbyn Medi 2024.<br>(Nifer disgyblion – 79, capasiti – 106). |
| **5.3.Cost fesul digybl** | Amrywiad yn y gost fesul disgybl:<br>• Ysgol Carreglefn 2023/24 = £17,200<br>• Ysgol Llanfechell 2023/24 = £5,524<br><br>Cyfartaledd cynradd Ynys Môn ar gyfer 2023/24 yw £5,240.<br><br>Ysgol Carreglefn sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl Ysgolion Cynradd Cymru.<br><br>Gellid dadlau bod ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol i gynnal isafswm lefelau staffio a bod ysgolion mwy ar eu colled o ganlyniad.<br><br>Mae angen lleihau cost addysg yn yr ardal. | Gellid lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws yr ardal. Amcangyfrifir y byddai'r gost fesul disgybl yn Llanfechell tua £5,396 (ar sail costau 23/24) pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Byddai'r cynnig yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor o tua £126k y flwyddyn.<br><br>Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r amrywiad ariannu rhwng cyllid ysgolion bach a mwy fesul disgybl. |
| **5.4.Adeiladau'r ysgolion** | Mae gan Ysgol Carreglefn gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (Rhagfyr 2023) a gradd cyflwr B (Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos mân ddirywiad).<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £532,950 (Rhagfyr 2023) a gradd cyflwr B (Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos mân ddirywiad).<br><br>Dim ond yn rhannol y mae'r ddwy ysgol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. | Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn gostwng £317,350.<br><br>Llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a all gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.<br><br>Pe bai disgybl ag anabledd yn mynychu Ysgol Llanfechell, byddai'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r adeilad gydymffurfio â'i anghenion yn cael ei adolygu a byddai addasiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu. |
| **5.5. Ymrwymiad Addysgu Penodol y Pennaeth** | Mae gan bennaeth Ysgol Llanfechell ymrwymiad addysgu penodol o 50%.<br><br>Mae Ysgol Carreglefn yn rhannu pennaeth gydag ysgol arall ar hyn o bryd, oherwydd anawsterau recriwtio. Dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth yn Ysgol Carreglefn. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod yr wythnos yn Ysgol Carreglefn, gan ganiatáu diwrnod a hanner yr wythnos yn unig fel amser digyswllt. | O ganlyniad i'r ffaith y bydd Ysgol Llanfechell yn debygol o dderbyn cyllid ychwanegol trwy'r fformiwla ariannu ysgolion (oherwydd cynnydd tebygol yn niferoedd disgyblion o drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell), efallai y bydd ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn cael ei leihau, a allai ganiatáu mwy o amser i arwain ar addysgu a dysgu, sy'n cael yr effaith fwyaf ar safonau. |
| **5.6 Cyllid** | Ysgol Carreglefn – Balansau wedi cynyddu o £21,425 o arian dros ben ar 31/03/22 i £22,123 o arian dros ben erbyn 31/03/23, sydd gyfystyr a 12% o gyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd £5,420 (24%) o falans yr ysgol i fantoli cyllideb ysgol 2023/24.<br><br>Ysgol Llanfechell – Balansau wedi cynyddu o £46,129 o arian dros ben ar 31/03/22 i £49,458 o arian dros ben ar 31/03/23, sydd gyfystyr a 10% | Disgwylir i'r cynnig gynhyrchu arbediad blynyddol net o £126k drwy'r fformiwla ariannu ysgolion.<br><br>Byddai'r cynnig yn arwain at ddisgyblion o Garreglefn yn mynychu ysgolion eraill. Gall hyn greu cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgolion y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt. |

| | Heriau allweddol | Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|---|
| | o gyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd £3,500 (7%) o falansau'r ysgol i fantoli cyllideb ysgol 2023/24.<br><br>Yn 2023/24 derbyniodd Ysgol Carreglefn £46,828 o gyllid ychwanegol (cyfwerth â 37% o gyllideb ychwanegol), oherwydd elfennau o fewn y fformiwla ariannu ysgolion sy'n gwarchod ysgolion llai. I gael rhagor o wybodaeth – gweler adran 4.5.<br><br>(Gweler cyllidebau ysgolion adran 5.11 i gael rhagor o wybodaeth).<br><br>Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlygu'r ffaith bod y Cyngor ar hyn o bryd yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ac ansicr, ac yn datgan y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25 a 2025/26. | Mae'n bosibl y bydd mwy o gyllideb ar gael i'w dirprwyo rhwng ysgolion eraill, gan efallai y bydd un ysgol yn llai sy'n derbyn cyllid ychwanegol drwy warchodaeth ar gyfer ysgolion bach (i ariannu'r isafswm o athrawon, neu drwy'r rhwyd ddiogelwch – fel yr eglurir yn adran 4.5)<br><br>Gellid dyrannu canran uwch o gyllideb yr ysgol tuag at addysgu, yn hytrach na chynnal a rhedeg adeiladau ysgol. |
| **5.7 Amrywiad ym maint dosbarthiadau** | Ym mis Medi 2023:<br><br>Mae holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth, gan arwain at amrywiad oedran o 7 mlynedd, gyda disgyblion blwyddyn derbyn yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â disgyblion blwyddyn 6. Gall hyn fod yn heriol o ran diwallu anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Rhennir disgyblion Ysgol Llanfechell yn 4 dosbarth, gydag amrywiad oedran o 2 flynedd fesul dosbarth. | Os gwireddir y cynnig, byddai llai o amrywiaeth yn yr ystod oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Llanfechell.<br>Mwy o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran. |

### 5.8 Niferoedd Disgyblion a Rhagamcanion Disgyblion

Nifer y disgyblion – Hanesyddol

| Ysgol | Capasiti - heb gynnwys Meithrin | Nifer y Disgyblion Ionawr 2019 | Nifer y Disgyblion Ionawr 2020 | Nifer y Disgyblion Ionawr 2021 | Nifer y Disgyblion Ionawr 2022 | Nifer y Disgyblion Ionawr 2023 | Nifer y Disgyblion Ionawr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 23 | 15 | 12 | 10 | 10 | 9* |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 66 | 62 | 66 | 74 | 77 | 72 |

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 ohonynt ym mlwyddyn 6.

Nifer y Disgyblion – Rhagamcanion Pum Mlynedd

| Ysgol | Capasiti - heb gynnwys Meithrin | Nifer y Disgyblion Medi 2023 | Rhagamcan Medi 2024 | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 9 | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 73 | 74 | 65 | 63 | 59 | 55 |

Mae rhagamcanion yn cadarnhau y disgwylir i Nifer y Disgyblion ar y cyd ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ostwng. O ganlyniad, mae'r cynnig i gau Ysgol Carreglefn ac ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell yn rhesymol yn yr ystyr bod y disgyblion a gyfunir o Garreglefn a Llanfechell yn is na'r

capasiti presennol yn Ysgol Llanfechell. Gan fod Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg heb unrhyw gymeriad crefyddol, gallai'r cynnig fodloni'r galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith a chymeriad crefyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos y ddarpariaeth ddangosol ar gyfer datblygiadau tai yng Ngharreglefn a Llanfechell. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys datblygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

| Ysgol | Dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) – gan gynnwys unedau gyda chaniatâd cynllunio | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Carreglefn | 8 | 1 |
| Llanfechell | 12 | 2 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*[1]], ar gyfartaledd, 0.14 o blant oed ysgol gynradd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.14 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*[1] MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000 a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - Census 2021 geographies - Office for National Statistics (ons.gov.uk)) ,

Pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Carreglefn a Llanfechell,

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Gorffennaf 2023:

- Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch.
- Mae llai na 47% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.

- Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o'r dalgylch.
- Mae llai na 78% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.

### 5.9 Darpariaeth Feithrin a Chyn ysgol

Mae'r ddarpariaeth cyn ysgol ganlynol ar gael yn ardal Carreglefn a Llanfechell:

Mae'r ddwy ysgol wedi'u cofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sy'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

**Rhagamcan o'r Lleoedd Meithrin yn yr Ysgolion:**

| | Niferoedd meithrin cyfredol ar y gofrestr Medi 2023 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2024 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2025 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2026 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2027 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Llanfechell 3-11 | 6 | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r nifer o ddisgyblion meithrin a ragwelir yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell ar y cyd yw 8 pan fydd ar ei uchaf. Y rhif derbyn meithrin ar gyfer Ysgol Llanfechell yw 13. Felly mae'n rhesymol tybio y byddai nifer digonol o leoedd meithrin yn Ysgol Llanfechell pe bai'r cynnig

yn cael ei weithredu. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Llanfechell yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Nid oes galw sy'n hysbys o fewn yr ardal am fath penodol o ddarpariaeth, e.e. darpariaeth â chymeriad crefyddol.

Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig o 9am tan 11.30am (Llun-Iau). Mae'r Cylch Meithrin hefyd yn darparu gofal plant cofleidiol (dim darpariaeth addysg) o ddydd Llun i ddydd Iau o 11.30am tan 3pm. Mae wedi'i gofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, lle mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu am hyd at 30 awr o ofal yr wythnos (gan gynnwys y 10 awr o ddarpariaeth addysg / 20 awr o ofal plant) i blant 3-4 oed. Arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf gan Estyn yn Ionawr 2020, pan arfarnwyd bod Lles, Gofal a Datblygiad, Addysgu ac Asesu, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dda. Barnwyd bod yr Amgylchedd yn Ddigonol. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.

Nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliadau eraill.

### 5.10 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Os cytunir ar y cynnig presennol, byddai'n arwain at newid yn amgylchedd dysgu disgyblion Carreglefn. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r newid fod yn fwy heriol i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ac i gynorthwyo disgyblion gydag unrhyw drosglwyddiad. Byddai'r Cyngor yn cael cyngor gan dimau penodol (y mae'r disgyblion yn ddarostyngedig iddynt) er mwyn adnabod a gweithredu strategaethau perthnasol i hwyluso'r trosglwyddiad. Gallai hyn gynnwys (er enghraifft),

- ymweliad ychwanegol ag Ysgol Llanfechell tra nad yw'r ysgol ar agor,
- disgyblion Carreglefn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd ag Ysgol Llanfechell, cyn y dyddiad trosglwyddo,
- adnodd gweledol gyda ffotograffau o bobl/lleoedd allweddol yn yr ysgol. Gellir anfon hwn yn uniongyrchol at blant ag ADY neu sy'n cael eu hystyried yn fregus,
- darparu adnoddau gweledol ynglŷn â rheolau a threfn y diwrnod megis lluniau o'r wisg ysgol, nifer y gwersi, amser cinio ac ati,
- trefnu i'r athro dosbarth ffonio, ymweld, neu ysgrifennu at y disgybl i siarad ag ef ac i roi gwybod iddo ei fod yn meddwl amdano cyn y trosglwyddo.
- Yr ysgol i ddarparu taflen holi ac ateb i rieni yn trafod cwestiynau ac atebion cyffredin.
- Yr ysgolion i geisio cael cymaint o wybodaeth â phosibl am y disgybl gan y rhieni, y disgybl, yr ysgol flaenorol neu unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud â'r disgybl.

Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai asesiad o anghenion yn cael ei gynnal i nodi'r lefel a'r math o gymorth sydd ei angen i hwyluso trosglwyddiad disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddai disgyblion ag ADY sy'n mynychu Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion addysgol unigol yn Ysgol Llanfechell.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddisgyblion ADY. Os oes gan rieni gyda disgyblion sydd wedi'u cofrestru ag ADY unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda Dr Einir Thomas (Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol).
E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru, Ffôn 01286 679007.

### 5.11 Cyllidebau Ysgolion

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol a'r costau i'r ysgolion.

| | Cyllideb Blwyddyn Lawn 2022/23 | Gwariant Gwirioneddol 2022/23 | 2022/23 Arian dros ben / (Diffyg) | Balansau'r Ysgol ar 31/3/22 | Balansau'r Ysgol ar 31/3/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Carreglefn** | £161,910 | £161,212 | £698 | £21,425 | £22,123 |
| **Ysgol Llanfechell** | £442,610 | £439,281 | £3,329 | £46,129 | £49,458 |

**Er eglurder** – nid yw'r gyllideb Blwyddyn Lawn uchod at ddiben y ddogfen hon yn cynnwys balans a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol.

Ar hyn o bryd, mae gan y ddwy ysgol falansau cadarnhaol, fodd bynnag dylid nodi bod Balansau Ysgol Carreglefn mewn sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd Mawrth 2019 a Mawrth 2020.

### Costau Rheolaidd

Y costau blynyddol rheolaidd ar gyfer 91 o ddisgyblion yn Ysgol Llanfechell fyddai £427,623 yn seiliedig ar y fformiwla ariannu gyfredol ar gyfer ysgolion sydd ar gael drwy ddyraniad cyllideb ysgolion blynyddol yr awdurdod (ac eithrio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chyllid Cyfnod Sylfaen na fyddai'n cael eu heffeithio). Y gost reolaidd ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn eu ffurf bresennol, ac yn seiliedig ar 91 o ddisgyblion gyda'i gilydd fyddai £554,013 (ac eithrio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chyllid Cyfnod Sylfaen na fyddent yn cael eu heffeithio). Gallai'r cynnig felly gynhyrchu arbediad net o £126,390 wedi'i ddyrannu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar 91 o ddisgyblion (Nifer y disgyblion ym mis Medi 2022 – a ddefnyddir i osod cyllideb ysgol 2023/24).

### 5.12 Datgarboneiddio

Ysgolion cynradd yw'r cynhyrchwyr carbon mwyaf o holl adeiladau'r Cyngor, gydag ysgolion uwchradd yr ail uchaf.

Mae'r tabl isod yn dangos y Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth ar gyfer adeiladau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.

| | Ysgol Carreglefn | Ysgol Llanfechell |
|---|---|---|
| Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth (tCO2e) | 14 | 20 |

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai'r swm net o tCO2e a allyrrir gan y ddau adeilad ysgol yn gostwng o 34 i 20, sef gostyngiad o 41% yn swm y tCO2e.

Mae amrywiad mawr mewn allyriadau carbon fesul disgybl, fel y gwelir isod:

| | Ysgol Carreglefn | Ysgol Llanfechell | Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd) |
|---|---|---|---|
| kg o Garbon Deuocsid Cyfwerth (kgCO2e) | 1,167 | 233 | 217 |

Yr allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r ail uchaf o holl ysgolion cynradd Ynys Môn.

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell yn 204kgCO2e.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fodd bynnag y gallai'r cynnig arwain at rywfaint o deithio ychwanegol i ddisgyblion Carreglefn. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon cyfwerth ag oddeutu 1.7tCO2e

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, gallai arwain at ostyngiad o tua £770 yn erbyn y gyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at arbediad carbon o tua 284 kgCO2e.

Rhagwelir mai effaith net yr uchod fydd arbediad o tua 12.6tCO2e y flwyddyn.  Mae hyn yn cyfateb i oddeutu ôl troed un person drwy gydol eu hoes.

### 5.13 Crynodeb

**Y rhesymau (a'r manteision) dros y cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn" yw:**

- Mae gan Ysgol Carreglefn nifer sylweddol o leoedd dros ben (80%). Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, gyda 4 ohonynt ym mlwyddyn 6. Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd nifer y disgyblion yn disgyn i 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen. Mae Ysgol Llanfechell wedi ei lleoli 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn ac mae ganddi gapasiti digonol ar gyfer disgyblion Ysgol Carreglefn, tra'n lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal. Gallai hyn wella effeithlonrwydd yn yr ardal, a sicrhau bod canran uwch o gyllid ysgolion yn cael ei ddyrannu tuag at addysgu.
- Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gan arwain at amrywiad oedran o 7 mlynedd, gyda disgyblion blwyddyn derbyn yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â disgyblion blwyddyn 6. Gall hyn fod yn heriol o ran diwallu anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.
- Mae'r cynnig yn sicrhau arbediad effeithlonrwydd o £126k a fyddai'n cyfrannu at yr arbedion y bydd angen i'r awdurdod eu cyflawni yn y dyfodol agos. Gellid dyrannu canran uwch o gyllideb yr ysgol tuag at addysgu, yn hytrach na chynnal a rhedeg adeiladau ysgolion.
- Y gost fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru, sef £17,200 y disgybl, sydd fwy na 3 gwaith yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod o £5,240 ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r amrywiad mewn cyllid fesul disgybl rhwng ysgolion bach ac ysgolion mwy. Pe bai'r cynnig presennol yn cael ei wireddu, byddai'r gost fesul disgybl yn Llanfechell tua £5,396 (yn ôl costau 2023/24), a byddai'n gymharol agos i gost gyfartalog fesul disgybl Ynys Môn.
- Mae Ysgol Carreglefn wedi profi anawsterau wrth benodi pennaeth parhaol ers dros 2 flynedd. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhannu pennaeth gydag Ysgol Gynradd arall, a dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth ar safle'r ysgol, ac mae ganddi ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod fel rhan o hyn. Mae gan Bennaeth Ysgol Llanfechell hefyd ymrwymiad addysgu penodol o 50%. Gallai'r cynnig ganiatáu gostyngiad yn ymrwymiad addysgu penodol penaethiaid, a chaniatáu mwy o amser i fynd i'r afael â heriau strategol a rheolaethol.
- Gallai'r cynnig gynnal y safonau presennol yn Ysgol Llanfechell, a fyddai fan leiaf yn cyfateb i safonau Ysgol Carreglefn. Byddai llai o amrywiad yn yr ystodau oedran a addysgir yn y dosbarthiadau, gan ganiatáu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn weithio gyda disgyblion eraill o'r un oed, a chael mynediad at gwricwlwm ehangach a mwy cytbwys.
- Gellid gwella Lles, Gofal ac Iechyd oherwydd llai o faich ar athrawon yn gorfod ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau, o gymharu ag ysgolion bach iawn.
- Gallai fod mwy o gyfleoedd i ehangu a chyfoethogi'r cwricwlwm, oherwydd mwy o staff ac adnoddau.
- Gellid cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Yr allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r ail uchaf o holl ysgolion cynradd Ynys Môn. Byddai'r cynnig yn cyfrannu at agenda datgarboneiddio'r Cyngor. Amcangyfrifir y byddai allyriadau carbon yn gostwng tua 12.6tCO2e
- Byddai'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol ar gyfer y dyfodol (£317,350) yn cael ei lleihau. Byddai'r cynnig hefyd yn lleihau'r costau refeniw cyffredinol ac yn arwain at arbedion ariannol.

Mae'r adran uchod yn dangos bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar y gyrwyr allweddol a nodir yn adran 4. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ategu gan ymrwymiad yr Awdurdod i:

- ddarparu cludiant i Ysgol Llanfechell ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn  yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.
- Gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol pe bai angen.

**Mae'r cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn" felly yn cael ei ystyried yn ateb sy'n cwrdd â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgolion.**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

## 6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFECHELL

Mae'r adran hon yn nodi'r opsiynau amgen rhesymol mewn ymgais i ddod o hyd i ateb sy'n mynd i'r afael â'r prif yrwyr ar gyfer ardaloedd Carreglefn a Llanfechell a nodir yn adran 4 uchod.

| **6.1 Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn. (Y Cynnig)**<br>Amcangyfrif o'r gost: Ni ragwelir unrhyw gostau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o gynnal y safonau a welir yn Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd. Gallai fod llai o amrywiaeth ym maint dosbarthiadau a nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran. | ▪ Llai o gyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion mwy. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Efallai y bydd gan Bennaeth Ysgol Llanfechell lai o ymrwymiad dysgu penodol, gan arwain at fwy o amser i arwain a rheoli'r ysgol.<br>▪ Mwy o sefydlogrwydd o fewn tîm Arwain yr ysgol.<br>▪ Haws recriwtio staff a llywodraethwyr. | ▪ Posibilrwydd colli staff a llywodraethwyr profiadol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Gostyngiad o £317,350 yn y costau cynnal a chadw presennol a'r costau rhagamcannol ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Lleihau nifer yr adeiladau sydd angen i'r Cyngor eu cynnal a'u cadw, ac osgoi costau atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. | |
| 4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben | ▪ Cyflawni gofynion capasiti presennol ac yn y dyfodol.<br>▪ Cael gwared ar lefydd dros ben yn yr ardal – Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl oedd yn mynychu Ysgol Carreglefn<br>▪ Lleihau symud ar draws dalgylchoedd. | |
| 5.Ariannol | ▪ Gellid mynd i'r afael â'r annhegwch ariannu, trwy leihau'r amrywiad yn y gost y pen.<br>▪ Byddai'n arwain at ostyngiad mewn costau refeniw o £126k drwy'r fformiwla ddirprwyedig i ysgolion.<br>▪ Dim costau cyfalaf ychwanegol.<br>▪ Gallai disgyblion ychwanegol yn Ysgol Llanfechell ddod â chyllid ychwanegol i'r ysgol. Mae hyn yn debygol o gynorthwyo'r ysgol i osod cyllideb gytbwys.<br>▪ Ychydig iawn o gostau cludiant ychwanegol a ragwelir, gan fod bws yn gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn barod, a dim ond 2.2 milltir yw'r pellter ychwanegol o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell.<br>▪ Byddai'n lleihau'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol o £317,350.<br>▪ Byddai'n lleihau'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu i warchod ysgolion bach drwy'r fformiwla ariannu ysgolion ddirprwyedig. | |
| 6. Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Llai o faich ar athrawon – cyfrifoldebau gwahanol o gymharu ag ysgolion bach iawn.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gydweithio o fewn yr ysgol. | |
| 7. Cwricwlwm i Gymru | ▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, oherwydd mwy o staff a chyllid.<br>▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio ymhlith staff yr ysgol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr o Garreglefn. | |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol.<br>▪ Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau - byddai hyn yn parhau yn Ysgol Llanfechell. | ▪ Gallai fod llai o gyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yng Ngharreglefn. |
| 9.Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r awdurdod am weithio gyda'r gymuned i sicrhau y gallai adeilad ysgol Carreglefn barhau i gael ei ddefnyddio fel ased cymunedol.<br>▪ Trwy uno cymunedau Carreglefn a Llanfechell, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. | |
| 10. Datgarboneiddio | ▪ Byddai lleihau nifer yr adeiladau ysgol yn lleihau ôl troed carbon y Cyngor, gan roi arbediad carbon net o tua 12.6t$CO_2$e y flwyddyn. | |
| 11.Materion cyffredinol | | ▪ Pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion, fodd bynnag ni fyddai'r teithio ychwanegol yn sylweddol. Dim ond 2.2 milltir yw'r pellter rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.<br>▪ Mae'n annhebygol y byddai disgyblion Carreglefn yn cerdded nac yn beicio i Ysgol Llanfechell. Nid yw disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd yn debygol o gael eu heffeithio. |

| **6.2 Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).**<br><br>Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth ysgol unigol.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb methodoleg addysgu a dysgu trwy gydweithio rhwng staff.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da ar draws Cyfnodau Allweddol mewn gwahanol safleoedd.<br>▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion. | ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn y CS a CA2.<br>▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth.<br>▪ Mae'n debygol y bydd gan y Pennaeth lai o ymrwymiad dysgu penodol.<br>▪ Gallai fod yn haws recriwtio athrawon a llywodraethwyr. | ▪ Posibilrwydd o golli Llywodraethwyr profiadol.<br>▪ Gallai fod yn anodd arwain a rheoli ysgol yn effeithiol ar adegau pan nad yw'r Pennaeth yn bresennol ar y safle. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol ar gyfer y dyfodol. |
| 4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal. |
| 5.Ariannol | ▪ Gellid mynd i'r afael ag amrywiad yn y gost fesul disgybl a thegwch dull gweithredu ar draws yr ardal.<br>▪ Amcangyfrifir arbedion refeniw o £94k y flwyddyn. Ni ragwelir costau cludiant ychwanegol. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol.<br>▪ Gallai fod yn anodd iawn i'r ysgol osod cyllideb gytbwys, gan y gallai'r gost addysgu ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach iawn fodoli o hyd ar y safleoedd llai, ond ni fyddai'r warchodaeth cyllid (lleiafswm nifer yr athrawon i'w ariannu) yn berthnasol, a byddai elfen lwmp sefydlog y fformiwla yn cael ei dyrannu unwaith yn unig (h.y. fesul ysgol nid fesul safle). |
| 6. Lles, Gofal ac Iechyd | | ▪ Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn. |
| 7. Cwricwlwm i Gymru | ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio ymhlith staff yr ysgol.<br>▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd. | |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau. | |
| 9.Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned.<br>▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Trwy uno ysgolion a chymunedau, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. | |

| **6.2 Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).**<br><br>Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth ysgol unigol.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 10. Datgarboneiddio | ▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol. | ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn ôl troed carbon adeiladau'r ysgol |
| 11.Materion cyffredinol | ▪ Dim tarfu ar ddisgyblion. | ▪ Ni fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol. |

**6.3 Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell**

Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol a ddefnyddir gan yr ysgolion dan sylw i gydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion llai. | ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn y CS a CA2.<br>▪ Iai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth.<br>▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau disgyblion trwy gyfleoedd cydlynol sy'n cynnwys plant o oedran tebyg o wahanol ysgolion.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da ond byddai angen eu rheoli'n ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o sicrhau cysondeb methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Efallai y bydd gan y Pennaeth lai o ymrwymiad addysgu penodol, gan arwain at fwy o amser i arwain a rheoli'r ysgol. | ▪ Posibilrwydd colli staff a llywodraethwyr profiadol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol. |
| 4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben yn yr ysgolion, gyda'r ddwy (Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell) â nifer sylweddol o leoedd dros ben – Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl oedd yn mynychu Ysgol Carreglefn. |
| 5.Ariannol | ▪ Mae pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Dim cost cludiant ychwanegol. | ▪ Costau staffio yn debygol o gynyddu tua £3k y flwyddyn.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o gyllid fesul disgybl. |
| 6. Lles, Gofal ac Iechyd | | ▪ Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn. |
| 7. Cwricwlwm i Gymru | ▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd. | |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau. | |
| 9.Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned. | |

**6.3 Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell**

Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol a ddefnyddir gan yr ysgolion dan sylw i gydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
|---|---|---|
| | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Trwy ffederaleiddio'r ddwy ysgol, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn y ddau bentref. | |
| 10. Datgarboneiddio | ▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol. | ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon adeiladau'r ysgolion. |
| 11.Materion cyffredinol | ▪ Gallai darpariaeth addysg barhau ar safleoedd y ddwy ysgol.<br>▪ Amhariad lleiaf ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Un Corff Llywodraethol ac o bosibl un Pennaeth. | |

| **6.4 Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:**<br><br>❖ **Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell** h.y. dod ag ysgolion at ei gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cronni arbenigedd a chaniatáu i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br>❖ **Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol**<br>❖ **Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion.<br>▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau disgyblion trwy gyfleoedd cydlynol i blant o oedran tebyg o wahanol ysgolion.<br>▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion. | ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau.<br>▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da drwy'r continwwm ond byddai angen eu rheoli'n ofalus. | ▪ Tebygol o gymryd amser i wreiddio clystyru / cydweithio cyn i glystyru ddod yn brif ffrwd.<br>▪ Dim newid mewn yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gallai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu penodol gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol barhau.<br>▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd recriwtio athrawon a llywodraethwyr mewn ysgolion bach.<br>▪ Llai o sefydlogrwydd o fewn Tîm Arwain yr Ysgol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgolion. |
| 4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben | ▪ Gallai fynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal. | |
| 5.Ariannol | ▪ Mae pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Dim angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor.<br>▪ Gwell defnydd o adnoddau ar draws yr ysgolion.<br>▪ Posibilrwydd o wrthbwyso costau ysgol gyda'r incwm o ddefnydd cymunedol. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol sy'n anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd cost uchel barhaus yr ystâd adeiladu ysgolion.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal - dim arbedion refeniw. |
| 6. Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Gallai fod cyfleoedd i wella Lles, Iechyd a Gofal trwy gydweithio â'r partneriaid a fyddai'n meddiannu safle'r ysgol. | ▪ Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn. |
| 7. Cwricwlwm i Gymru | | ▪ Gallai fod llai o gyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm mewn ysgolion bach, oherwydd llai o adnoddau a chyllid.<br>▪ Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyd-gynllunio rhwng athrawon mewn ysgolion bach iawn. |

**6.4 Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:**

- **Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell** h.y. dod ag ysgolion at ei gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cronni arbenigedd a chaniatáu i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- **Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol**
- **Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion**

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
|---|---|---|
| 8.Yr Iaith Gymraeg | Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau. | |
| 9.Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned.<br>▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar draws y ddau bentref o ganlyniad i'r trefniant clystyru / cydweithio.<br>▪ Gallai fod cyfleoedd i gynyddu defnydd cymunedol o'r adeilad trwy gydweithio â'r gwasanaethau a fyddai'n meddiannu safle'r ysgol. | |
| 10. Datgarboneiddio | ▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol. | ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon adeiladau'r ysgolion. |
| 11.Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Amhariad lleiaf ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Pob ysgol yn parhau i fod yn annibynnol. | ▪ Mae cytundebau clystyru / cydweithio ffurfiol yn araf i ddatblygu yng Nghymru.<br>▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol, gyda gwasanaethau eraill yn rhannu safle'r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd bod y Cyngor yn tynnu gwasanaethau'n ôl i'r Pencadlys yn Llangefni i gynorthwyo'r agenda effeithlonrwydd. |

**Opsiynau eraill a ystyriwyd, ond na chawsant eu hystyried fel rhai rhesymol**

Yn ogystal â'r uchod, ystyriwyd yr opsiynau canlynol hefyd, ond ni chawsant eu hystyried yn rhesymol am y rhesymau a grynhoir isod.

| Cyf | Disgrifiad | Prif Resymau dros Wrthod |
|---|---|---|
| 6.5 | Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Llanfechell i Ysgol Carreglefn a chau Ysgol Llanfechell | ▪ Nid oes digon o le yn Ysgol Carreglefn i dderbyn disgyblion o Ysgol Llanfechell. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i ehangu'r ysgol, a byddai'n dibynnu os oes tir cyfagos ar gael.<br>▪ Byddai'n arwain at gostau cludiant uwch i gludo disgyblion o Lanfechell i Ysgol Carreglefn.<br>▪ Byddai'n arwain at fwy o draffig ar hyd ffordd un lôn, lle mae mynediad i'r ysgol yn cael ei ystyried yn wael. |
| 6.6 | Cadw'r Status Quo - Gadael Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell fel y maent | ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.<br>▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau amrywiad mewn cost fesul disgybl a sicrhau bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg.<br>▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda o weithio tuag at ddod yn Sero Net. |
| 6.7 | Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).<br><br>Pob safle ar gyfer ystod oedran penodol, er enghraifft; Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Carreglefn, a CA2 yn Ysgol Llanfechell. | ▪ Yn logistaidd, gallai fod yn broblemus i Rieni / Gwarcheidwaid godi a gollwng brodyr a chwiorydd o ddau safle ar wahân, fel arall byddai'n arwain at gostau cludiant ychwanegol.<br>▪ Gall disgyblion gymryd cam yn ôl wrth bontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – yn debyg i'r camau yn ôl a brofir pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o flwyddyn 6 i flwyddyn 7.<br>▪ Efallai na fydd athrawon mor gyfarwydd â disgyblion a'u lefelau datblygiad pan fyddant yn trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.<br>▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda o weithio tuag at ddod yn Sero Net. |
| 6.8 | Mynd i'r afael â chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn y ddwy ysgol | ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.<br>▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau amrywiad mewn cost fesul disgybl a sicrhau bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg. |
| 6.9 | Lleihau ôl troed / arwynebedd adeilad ysgol Ysgol Carreglefn | ▪ Dim newid ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.<br>▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Mae'r gostyngiad yn y gost fesul disgybl yn debygol o fod yn fach iawn. Rhagwelir y bydd y gost fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yn debygol o barhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Nid yw'n sicrhau'n ddigonol bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg. |
| 6.10 | Ysgol Ardal Newydd ar gyfer Disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell | ▪ Er y byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â llawer o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell mewn perthynas ag adeiladau ysgol, byddai Cost Cyfalaf |

| Cyf | Disgrifiad | Prif Resymau dros Wrthod |
|---|---|---|
| | | sylweddol yn gysylltiedig â hynny. Ni fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor.<br>▪ Byddai'r cyngor yn ystyried ysgol newydd o'r maint hwn (tua 80-90 o ddisgyblion) yn rhy fach. |

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r Awdurdod wedi ystyried nifer o opsiynau amgen rhesymol, a **daw i'r casgliad mai'r cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"** yw'r cynnig sy'n cynnig yr ateb gorau o ran mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol (a nodir yn adran 4) ar gyfer yr ardal. **Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, rhagwelir y byddai Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024, a'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Llanfechell o Medi 2024.** Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

## 7. Y RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL GARREGLEFN

Gan fod y cynnig uchod yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Carreglefn, sydd ar y rhestr o ysgolion gwledig [Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)] caiff pob opsiwn amgen rhesymol a ystyriwyd yn yr adran ei asesu yn y tabl yn 7.2 mewn perthynas â'r effaith debygol ar:

- Ansawdd a Safonau Addysg
- y gymuned, a
- threfniadau teithio ar gyfer disgyblion.

Mae asesiad effaith cymunedol wedi ei baratoi (gweler Atodiad 2) i archwilio effaith tymor hir cyffredinol cau'r ysgol wledig ar y bobl a'r gymuned. Cafwyd manylion y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn lleol yng Ngharreglefn a Llanfechell o holiadur a gwblhawyd gan yr ysgolion. Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru wrth i ni symud ymlaen trwy'r broses o wneud penderfyniad.

Mae Adran 7.1 yn nodi sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ddwy ysgol ac unrhyw gyfleusterau y mae'n eu cynnig (e.e. sut y gellid helpu disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol).

### 7.1 Ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

Byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau y byddai teuluoedd, rhieni a disgyblion yn cael y budd mwyaf o ymgysylltu a defnyddio'r cyfleusterau yn Llanfechell.

Gallai'r ymgysylltu fod yn amlochrog a gallai gynnwys rhai o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau allgyrsiol | Clybiau (Llanfechell) – Urdd, Coginio, Athletau, Clybiau Ffilm a chlybiau Codio Cyfrifiadurol.<br><br>Clybiau (Carreglefn) – Clwb aml-weithgaredd. |
| Darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol | Llanfechell: Gofal plant boreol a Chlwb Brecwast, Cylch Meithrin.<br>Carreglefn: Gofal plant boreol a Chlwb Brecwast. |
| Defnydd o gyfleusterau'r ysgol | Defnydd o dir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn cynnwys:<br><br>Llanfechell: Whist, Clwb Pensiynwyr, Pwyllgor Y Gymuned, Ffair Mechell, Merched y Wawr, Cyfeillion Mechell, Mon Actif, Clwb Y Popis, Clwb Yoga, Ti a Fi.<br><br>Carreglefn: Whist, Clwb y Cen, Cyngor Cymuned, Pwyllgor Cymuned, Noson Garolau Cymunedol, Pwyllgor Maes Coffa, Gwasanaeth Cofio, Clwb Clytwaith, Arddangosfa Creftau Clwb Clytwaith. |

* Cafwyd manylion y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan y Penaethiaid.

Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i Ysgol Llanfechell gynnal y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'i gefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Gallai'r trefniadau hyn gynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a chludiant a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Mae Ysgol Llanfechell yn darparu darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol ar hyn o bryd. Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sy'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Llanfechell yn parhau i fod ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai'r Cyngor y dymuno gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol yng Ngharreglefn i rhoi cyfle i sicrhau

hyfywedd tymor hir adeilad yr ysgol fel y gellir cynnal y ddarpariaeth gymunedol pe bai angen. Gallai unrhyw weithgareddau lle byddai'r niferoedd dan sylw yn fwy na chapasiti Ysgol Carreglefn gael eu cynnal yn Ysgol Llanfechell.

7.2 Os nodwyd bod yr opsiwn amgen rhesymol yn fuddiol yna nodir ei fod yn gadarnhaol. Nodir bod opsiwn amgen rhesymol a allai fod yn niweidiol yn negyddol. Caiff opsiwn amgen rhesymol nad yw'n cael effaith sylweddol ei nodi fel niwtral.

| Opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn [adran 6] | Effaith ar Ansawdd a Safonau | Effaith ar y Gymuned | Effaith ar drefniadau teithio gwahanol |
|---|---|---|---|
| Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, a chau Ysgol Carreglefn (6.1 – Y Cynnig) | Cadarnhaol<br>Posibilrwydd o gynnal safonau. Mae'n lleihau'r amrywiad ym maint dosbarthiadau, a nifer yr ystodau oedran sy'n cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Byddai mwy o gyfleoedd i blant o'r un oedran gydweithio.<br>Mae safonau Ysgol Llanfechell o leiaf yn cyfateb i rai Ysgol Carreglefn. | Cadarnhaol<br>Byddai'r Cyngor eisiau gweithio gyda'r gymuned i rhoi cyfle i sicrhau parhad adeilad ysgol Carreglefn er budd y gymuned leol pe bai angen.<br><br>Efallai y bydd disgyblion o Garreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | Negyddol<br>Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion. Byddai disgyblion o Ysgol Carreglefn yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Ni fyddai'r amser teithio ychwanegol yn sylweddol. Dim ond 2.2 milltir yw'r pellter rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.<br>Mae llai na 47% o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn. |
| Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell) (6.2) | Niwtral<br>Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da.<br>Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>Gall fod yn anodd datblygu methodoleg addysgu gyson ar 2 safle.<br>Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o'r un oedran. | Cadarnhaol<br>Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.<br>Byddai'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent. |
| Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (6.3) | Niwtral<br>Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da.<br>Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>Gall fod yn anoddach datblygu methodoleg addysgu gyson ar 2 safle.<br>Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o'r un oedran. | Cadarnhaol<br>Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.<br>Byddai'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent. |
| Clystyru, cydweithio, | Niwtral | Cadarnhaol | Niwtral |

| Opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn [adran 6] | Effaith ar Ansawdd a Safonau | Effaith ar y Gymuned | Effaith ar drefniadau teithio gwahanol |
|---|---|---|---|
| defnyddio ysgolion fel hybiau cymunedol neu gydleoli gwasanaethau o fewn Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell (6.4) | Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.<br>Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da.<br>Byddai capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth yn aros yr un fath.<br>Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.<br>Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o’r un oedran. | Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.<br>Byddai’r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal. | Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent. |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod rhai effeithiau cadarnhaol a negyddol yn gysylltiedig â'r opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd. Mae’r dadansoddiad yn dangos bod y cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, cau Ysgol Carreglefn, ac ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar safonau, agweddau cymunedol a threfniadau teithio disgyblion. Tra bod y tabl uchod yn dangos y bydd y bwriad yn cael effaith negyddol ar drefniadau teithio, ni ragwelir y bydd yr effaith negyddol yma yn arwyddocaol. Lleolir Ysgol Llanfechell 2.2 milltir yn unig o Ysgol Carreglefn, ac ar hyn o bryd dim ond 47% o ddisgyblion sy’n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn sy’n mynychu’r ysgol.

Ategir y dadansoddiad hwn gan ymrwymiad yr Awdurdod i:

- weithio gyda chymuned Carreglefn i sicrhau hyfywedd tymor hir adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol, a;
- darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw’r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o’r oedran hwnnw gerdded i ac o’r ysgol.

## 8. EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG

Rhagwelir y gallai swm y cyllid a ddirprwyir i ysgolion drwy fformiwla ariannu ysgolion yr awdurdod leihau tua £126,390 y flwyddyn ar ôl gweithredu'r cynnig.
Gallai'r arbediad hwn gyfrannu at y diffyg tebygol yn y gyllideb y mae'n debygol y bydd angen i'r awdurdod fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol agos. Gallai'r cynnig hefyd leihau'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn y dyfodol o £317,350.

Disgwylir y bydd y gost ychwanegol i gludo disgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod yn fach iawn, gan fod bws eisoes yn gwasanaethu Ysgol Carreglefn, a dim ond 2.2 milltir yw'r pellter ychwanegol o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell.

Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â'r prosiect hwn.

Efallai y bydd rhai costau trosiannol tymor byr y bydd angen eu hariannu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- costau diswyddo posibl;
- gwarchodaeth cyflog posibl i staff;
- cost bosibl sy'n gysylltiedig ag eiddo hyd nes y caiff yr adeilad ei drosglwyddo o berchnogaeth yr awdurdod.

Mae'n anodd amcangyfrif y costau trosiannol, gan eu bod yn ddibynnol iawn ar y staff dan sylw. Gallai'r holl gostau trosiannol godi ym mlwyddyn 1, neu gallent gael eu hysgwyddo dros gyfnod o 3 blynedd.

Mae'r gost drosiannol fesul blwyddyn ariannol wedi'i hamcangyfrif yn y tabl isod:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Uchafswm y Gost Drosiannol (Amcangyfrif)** |
|---|---|
| 2024/25 | £35,000 |
| 2025/26 | £4,000 |
| 2026/27 | £4,000 |
| 2027/28 | £4,000 |

Byddai angen i'r costau refeniw hyn gael eu hariannu gan yr Awdurdod ac felly mae angen eu cynnwys yn y cylch gosod cyllideb o 2024/25.

Wedi ystyried yr holl oblygiadau cost uchod, byddai'r cynnig, o'i wireddu, yn lleihau costau refeniw o tua £580k dros gyfnod o 5 mlynedd, yn ogystal â lleihau costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (cyn ystyried unrhyw chwyddiant neu ddirywiad pellach yn safon adeilad yr ysgol).

Gallai'r cynnig fynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl fel y dangosir isod. Mae'r tablau isod yn dangos y gost gyfredol fesul disgybl, a'r gost amcangyfrifedig fesul disgybl pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu:

| Ysgol | Carreglefn | Llanfechell | Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd) |
|---|---|---|---|
| Cost Gyfredol fesul Disgybl (2023/24) | £17,200 | £5,524 | £5,240 |

| Ysgol | Llanfechell | Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd) | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| Cost Ragamcannol fesul Disgybl os caiff y cynnig ei weithredu (yn seiliedig ar gyllidebau ysgol 2023/24) | £5,396 | £5,215 | £181 (3% yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd) |

## 9. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o’r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (gweler adran 6) a’u heffaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned a threfniadau teithio’r disgyblion (adran 7), y cynnig a ffafrir gan yr Awdurdod yw:
**“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.**

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb gorau posibl sy'n mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.

Mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar **safonau** yn yr ystyr
- y byddai’r ymarfer yn Ysgol Llanfechell yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion Carreglefn;
- y byddai’n gweithio tuag at sicrhau na fyddai'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na dwy flynedd;

y gallai leihau ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth.

Mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar y **gymuned** ar y cyfan gan ei fod yn cynnig y posibilrwydd o barhad adeilad ysgol Carreglefn fel ased cymunedol. Yn ogystal, byddai'r cyfleusterau yn Llanfechell ar gael i'w defnyddio pe bai nifer y bobl sy'n mynychu gweithgaredd yng Ngharreglefn yn debygol o fod yn fwy na chynhwysedd adeilad yr ysgol bresennol. Efallai y byddai disgyblion o Garreglefn hefyd yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Llanfechell.

Mae’n debygol o gael effaith negyddol fach ar **drefniadau teithio disgyblion** yn yr ystyr y gallai fod angen i ddisgyblion o Garreglefn deithio ymhellach i’w hysgol ddalgylch. Mae'r Awdurdod yn cynnig darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o ddalgylch presennol Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan fod y ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn anaddas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o’r ysgol.

Mae’r cynnig yn cyd fynd ag amcanion ac egwyddorion y Cyngor sy’n anelu at:
- Darparu'r safonau addysg gorau i bobl ifanc.
- Cynyddu capasiti ar gyfer datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.
- Sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel ac addas i'r diben.
- Darparu addysg sy’n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau
- Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau’r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion
- Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.
- Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.
- Ehangu'r defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgolion gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.
- Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.

Yn ogystal, ac er mwyn gwireddu'r cynnig, byddai'r Cyngor yn ymateb i faterion penodol sydd wedi codi trwy'r asesiadau effaith a gynhaliwyd, trwy:
- ddarparu gwasanaeth bws i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod;
- gweithio gyda’r gymuned yng Ngharreglefn gyda’r bwriad o rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.

ATODIAD 1

**Cynnig i:**

**“Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”**

# ASESIAD EFFAITH

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | 18 Ionawr 2024 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Marc B Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Dyddiad yr adolygiad** | Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio o’r cyfnod gwrthwynebu yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad gwrthwynebu maes o law. |

**Mae copïau caled o’r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost at** **ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru**

ATODIAD 1

## CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD .......... 3
2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB .......... 4
   2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .......... 5
   2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 .......... 7
   2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 .......... 8
   2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8 .......... 8
   2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori .......... 8
   2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru .......... 10
   2.7 Canlyniad yr asesiad .......... 16
   2.8 Cynllun Gweithredu .......... 18
3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG .......... 19
   3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg .......... 20
   3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg .......... 21
   3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg .......... 22
   3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg .......... 23
   3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu .......... 25
   3.6 Ymgynghori .......... 27
   3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus .......... 27
4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED .......... 28
5 CASGLIAD .......... 39
*6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol* .......... 40
*7 Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol* .......... 42
*8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* .......... 43

ATODIAD 1

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Y cynnig dan sylw yw:
**"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"**

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur i asesu'r defnydd presennol a'r defnydd cymunedol o'r ysgolion a darparu manylion am gyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach.

Roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023*, yr niferoedd ar y gofrestr ar 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024) ac ystadegau a dderbyniwyd gan Benaethiaid ym mis Medi 2023.

*Mae ystadegau megis nifer siaradwyr Cymraeg ac ati wedi ei cael o Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023, gan bod data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2024 heb ei gyhoeddi eto.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
Adran 5 – Casgliad

Mae'r asesiad effaith wedi ystyried ymrwymiad y Cyngor i'r canlynol:

- Darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.
- Gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu at yr asesiadau effaith.**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o newidiadau** |
| 0.1 | 18 Ionawr 2024 | Drafft cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

ATODIAD 1

## 2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae’r asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb wedi’i gynnal i fodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i’r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae’r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae’n diogelu’r naw nodwedd ganlynol (a elwir hefyd yn ‘grwpiau gwarchodedig’):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred.
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau uchod i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith ei bolisïau a’i arferion ar grwpiau a warchodir gan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effaith debygol neu wirioneddol ei bolisïau a’i arferion ar grwpiau gwarchodedig a rhoi ‘sylw dyledus’ (h.y., rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o’r fath.

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth lunio’r achosion busnes, yn ystod y broses o ddatblygu’r prosiect ac, os cânt eu gweithredu, bydd yr effaith wirioneddol yn cael ei monitro. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod pawb yn cael ystyriaeth deg.

| **2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw **"Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"** |
| **Ydy'r cynnig hwn yn un newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes?** | Mae hwn yn gynnig newydd. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig hwn?** | Pwrpas y cynnig hwn yw gwella effeithlonrwydd ysgolion a sicrhau cyllid teg.<br><br>Mae Ysgol Carreglefn wedi ei blaenoriaethu gan fod ganddi 80% o leoedd dros ben (Ionawr 2024), a chost fesul disgybl o £17,200 sef yr uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer 2023/24. Yn Ionawr 2024, dim ond 9 disgybl oedd yn Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6.<br><br>Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, ddod â'r buddion a ganlyn:<br>• Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell.<br>• Gallai'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau'n sylweddol.<br>• Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.<br>• Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad refeniw o £126k y flwyddyn<br>• Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 13tCO2e<br>• Gellid dyrannu mwy o'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau'n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau<br>• Gellid gostwng costau Cynnal a Chadw Presennol a Rhagamcannol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.<br>• Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>• Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr o Garreglefn |

ATODIAD 1

| **2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Marc B. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad hwn?** | Aaron Evans – Uwch Reolwr – Sector Uwchradd<br>Alun Roberts - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Emrys Bebb - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Carol Sorahan – Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?** | Oes - Mae'r cynnig hwn yn gyson ag amcanion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 18 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, asesir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun. | |
| Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ |
| | Hyrwyddo cyfle cyfartal | ✓ |
| | Meithrin cysylltiadau da | ✓ |
| | Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ |
| Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol (Beth yw'r Ddyletswydd? – ceir eglurhad yn Adran 6) | Yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion mae Ysgol Carreglefn yn cael ei nodi fel ysgol wledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma trwy gydweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol os bydd angen. | |

ATODIAD 1

| **2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?**<br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas | Ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgolion, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ysgolion.<br><br>Mae Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ill dau yn cael eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel ysgolion gwledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma drwy gydweithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir i adeilad ysgol Carreglefn. |

| **2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ydy – asesir hyn ar wahân yn rhan Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon |
| Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r ddwy yng nghategori 3 o ran categori iaith (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth). Felly ni fyddai unrhyw newid yn y categori iaith.<br><br>Ym mis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref.<br>Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. |

| | | |
|---|---|---|
| A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd – mae hyn yn cael ei asesu ar wahân yn yr adran ar yr Asesiad Effaith ar Iaith yn y ddogfen hon | |
| A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Byddai gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Ysgol Llanfechell ac yn ardal Carreglefn a Llanfechell. | |
| **2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998** | | |
| Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion hyn? | Nid oes unrhyw faterion Hawliau Dynol wedi'u nodi.<br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn adran 7). | |
| **2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8** | | |
| Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Cymru lewyrchus | Ydy |
| | Cymru gydnerth | Ydy |
| | Cymru iachach | Ydy |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydy |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydy |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydy |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydy |
| **2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori** | | |
| Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cyflwynir papur cynnig i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i geisio penderfyniad i gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig hwn, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. O ddyddiad cyhoeddi'r Rhybydd Statudol, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig. | |
| Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Os ydych, rhowch fanylion: | Mae'r wybodaeth ganlynol am yr ysgolion wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhyw, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, a iaith Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn gynwysedig yn yr asesiad hwn. | |
| Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Ni nodwyd unrhyw fylchau ar hyn o bryd. | |

ATODIAD 1

| A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | √ | |
| **Hyrwyddo cyfle cyfartal** | √ | |
| **Meithrin cysylltiadau da** | √ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

## 2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Niwtral**

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| **Oed** | Cadarnhaol | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg amser llawn i blant a phobl ifanc 4-16 oed. Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd yn derbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Os gwireddir y cynnig bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i dderbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Mae yna hefyd Gylch Meithrin ar dir Ysgol Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin yn endid ar wahân (ac yn annibynnol yn ariannol) i'r ysgol, sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Nid oes darpariaeth o'r fath yng Ngharreglefn.<br><br>Er bod y Cylch Meithrin yn annibynnol ar Ysgol Llanfechell, mae'r ddau gorff yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth 'cofleidiol', sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen rhieni / gwarcheidwaid. i fod yn bresennol. Gallai'r cynnig olygu bod mwy o ddisgyblion yn ymuno â'r Cylch Meithrin o ddwy a hanner oed ymlaen. | Byddai disgyblion a fyddai'n trosglwyddo o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno, a fyddai'n cael eu trefnu ar y cyd. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid. |
| **Anabledd** | Niwtral | Os gwireddir y cynnig:<br>• Mae adeiladau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd unrhyw newid i | Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Bydd anghenion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol. |

<table>
<tr><th>Y grŵp / a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>adeiladau Ysgol Llanfechell o dan y cynnig hwn.<br>Byddai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cymorth ychwanegol i ymateb i'w hanghenion addysgol unigol. Mewn ysgol fwy, efallai y bydd staff sy'n arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n bosibl y byddai cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod ehangach o arbenigedd i allu ymdrin â sbectrwm ehangach o ADY.</td><td>Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion aelodau staff.<br>Pe bai disgybl ag anabledd yn mynychu Ysgol Llanfechell, byddai'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r adeilad gydymffurfio â'i anghenion yn cael ei adolygu a byddai addasiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Niwtral</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw presennol a'r rhaniad os caiff y cynnig ei wireddu.<br>Rhaniad rhyw presennol (Ionawr 2023):
<table>
<tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Carreglefn</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>50%</td><td>58%</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>50%</td><td>42%</td></tr>
</table>
Rhaniad rhyw os caiff y cynnig ei wireddu:
<table>
<tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>57%</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>43%</td></tr>
</table>
Byddai'r rhaniad rhyw a ragwelir o dan y cynnig yn gymharol gyfartal, ac ni fyddai'n destun pryder.</td><td>Caiff perfformiad pob disgybl ei asesu a'i fonitro, i gynnwys grwpiau penodol fel gwryw a benyw, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a'r rhai mwy galluog a thalentog. Mae perfformiad addysgol bechgyn a merched yn cael ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng gwrywod a benywod a'r gwahanol grwpiau cysylltiedig.</td></tr>
<tr><td>Ailbennu Rhywedd</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd.</td><td>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td><td>Niwtral</td><td>Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Mae staff benywaidd sy'n beichiogi yn gymwys am gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth yn unol â'r Polisi</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Y grŵp / a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Absenoldeb Tadolaeth, neu gall rhieni ofyn am absenoldeb tadolaeth a rennir. Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd gwyliau yn digwydd gyda staff yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd</td><td>Niwtral</td><td>Data CYBLD Ionawr 2023:<br><table><tr><th>Ysgol Carreglefn</th><th>Ysgol Llanfechell</th></tr><tr><td>Gwyn Prydeinig 100%*</td><td>Gwyn Prydeinig 96%*</td></tr></table><br>*Nid yw pob disgybl wedi ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'r CYBLD. Mae’r ganran uchod yn seiliedig ar ymatebion yr 83% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Carreglefn, a’r 97% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Llanfechell.</td><td>Os bydd disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os bydd aelodau staff o gefndiroedd ethnig eraill, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am grefydd neu gred eu plentyn gyda’r ysgol.<br>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol</td><td>Niwtral</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn digwydd.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol eu plentyn gyda’r ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Priodas neu bartneriaeth sifil</td><td>Niwtral</td><td>Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail priodas/neu bartneriaeth sifil yn digwydd gyda staff yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
</table>

ATODIAD 1

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Niwtral | Mae CYBLD – Ionawr 2023 yn dangos mai dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Ysgol Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref. Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gael eu trochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg mynegodd rhai bryderon y gallai cau ysgolion bach/gwledig gael effaith negyddol ar y Gymraeg ac ar gymunedau, gyda rhai yn gweld yr ysgol fel canolbwynt i helpu i drochi mewnfudwyr yn yr Iaith Gymraeg. | Byddai gan Ysgol Llanfechell rôl i helpu i drochi mewnfudwyr Carreglefn yn yr Iaith Gymraeg. Byddai disgyblion a rhieni Carreglefn yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 (fel y mae Ysgol Carreglefn), lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Byddai'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Byddai'r Cyngor hefyd yn dymuno gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol y gellir eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Hawliau Dynol** | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd gyda staff neu ddisgyblion yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif. |
| **Arall - Economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>**Ystyriwyd ffactorau economaidd-** | Niwtral | Enwir Ysgol Carreglefn fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Mae yna nifer o ysgolion bach a gwledig o fewn Ynys Môn sy'n perfformio'n dda, ond dylid nodi bod heriau penodol yn gysylltiedig â rhedeg ysgolion bach gwledig. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfrannu at y gymuned, y defnydd o'r iaith Gymraeg a fforddd o fyw.<br><br>Wrth ystyried ei opsiynau ar gyfer trefniadaeth ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac |

ATODIAD 1

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **gymdeithasol a gwledig yn yr 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned' isod.** | | Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg yn 2019 o'r enw, "Rhedeg ysgolion gwledig bach yn effeithiol" yn cynnwys heriau megis:<br>• "Anweddolrwydd yn niferoedd disgyblion. Mae gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn achosi cwymp canrannol sylweddol yng nghyllideb yr ysgol"<br>• "Y brif her oedd cynnal dosbarthiadau oedran cymysg…. Teimlai rhai nad oedd hyfforddiant athrawon wedi'i gynllunio ar gyfer y mathau hyn o ddosbarthiadau a bod arweiniad cyfyngedig ar gael"<br>• "Nododd llawer o ysgolion y gall fod yn heriol cynnig cwricwlwm eang a chytbwys"<br>• "Amlygodd ysgolion ac ymddiriedolaethau eu bod yn wynebu heriau recriwtio" | anghenion tymor hir ein cymunedau, trwy gyfrwng cydweithio.<br>Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi pe bai ysgol yn cau.<br>Mae'r awdurdod yn cynnig lliniaru'r effeithiau hyn drwy ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgol yr awdurdod. |
| **Arall - Economaidd-gymdeithasol. Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.** | Niwtral | Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol Llanfechell.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd disgyblion o Carreglefn yn teithio'n bellach i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. | Bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. Gallai disgyblion Carreglefn |

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Byddai'r Cyngor hefyd eisiau weithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol. |
| **Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.** | | | |

| Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| **A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Wedi'i gynnwys uchod | Gweler uchod | |

**Canlyniad yr asesiad:**

Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol**. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol | Yn gyffredinol, ac ar ôl cymryd camau lliniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol o ran cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Gan fod Ysgol Carreglefn yn ysgol wledig, gellid gweld bod y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, o ran teithio i Ysgol Llanfechell ac o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn wedi'u lliniaru trwy'r canlynol:<br>• darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan fod y ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn anaddas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.<br>• gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.<br>• bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. |
| Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, arwain at y manteision canlynol:<br>- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>- Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr Carreglefn<br>- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.<br>- Lleihad mewn allyriadau carbon o tua 13tCO2e y flwyddyn.<br>- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy cymesur a chyfartal. |

ATODIAD 1

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd parhau gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |
| Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Cymerir camau lliniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol posibl a ragwelwyd – fel y nodir uchod. |
| A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd – Bydd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig.<br><br>Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu symud ymlaen, bydd swyddogion yn dilyn proses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithdrefnau sydd yn cyfrannu at, herio a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a monitro cynnydd a rheoli risgiau .<br><br>Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddaru wrth i'r cynnig fynd rhagddo. |

**Casgliad -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol**. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**2.8 Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Gwaith y Cyngor i benderfynu a ddylid awdurdodi swyddogion i gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig | Marc B Hughes | I'w gadarnhau. |

ATODIAD 1

### 3. ASESIAD O’R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu’r egwyddor na ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Mae’r un disgwyliad yn berthnasol o ran y Gymraeg ym mhob un o’r ysgolion, sy’n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir ennill y sgiliau priodol i fod yn hyderus ddwyieithog.

Gan fod y cynnig hwn yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; a sut y byddai’r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg neu’n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; **cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yma.**

ATODIAD 1

| **3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydy, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob gohebiaeth a chyfathrebiad yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd – bydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Llanfechell. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar strwythurau staffio presennol Ysgol Llanfechell. Byddai holl staff Ysgol Carreglefn 'mewn perygl' o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a'r Polisi Adleoli ar gyfer ysgolion yn cael eu gweithredu.<br><br>Bydd – bydd unrhyw staff newydd a gaiff eu recriwtio yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddant yn parhau i weithredu'r polisi.<br>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd trefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd – canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a chanran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.<br>Yn ôl data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dysgu megis canran y disgyblion sy'n cyrraedd |

ATODIAD 1

| 3.1 Cydymffurfiaeth â’r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref fel rhan o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| 3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd y cynnig hwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr??<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o’r gwasanaeth yn Gymraeg? | Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio’r Gymraeg y tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth. |
| Oes perygl i’r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi’u hystyried yn y cynnig?<br><br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a’r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br><br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na fydd – Bydd y ddwy ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod.<br><br>Ydyn – anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith yw un o’r prif yrwyr ar gyfer y cynnig hwn.<br><br>Ydyn – bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu i bob disgybl.<br><br>Nac ydyn – ni fydd trefniadau o ran y Gymraeg yn arwain at oedi yn y gwasanaeth. |
| • A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br>• A yw’n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw’n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o’r Gymraeg e.e. busnesau? | Ni ragwelir unrhyw newid arwyddocaol.<br><br>Bydd arwyddion yn Ysgol Llanfechell yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg a gallai ddefnyddio deunyddiau Cymraeg.<br><br>Bydd arwyddion dwyieithog yn parhau i gael eu gweld gan lawer yn yr ardal leol. |
| • A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â’r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i’w gael yn Gymraeg a Saesneg? | Bydd – gweler uchod |

ATODIAD 1

| 3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | |

| 3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal.<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, cododd rhai ymatebwyr bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.<br><br>Disgwylir i'r effaith o'r cynnig hwn yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).<br><br>Cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at gau un o'r ychydig amwynderau cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r gymuned leol. Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:<br>▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.<br>▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Nag ydy – Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith sylweddol ar yr economi leol. Rhaid cydnabod fodd bynnag bod y cynnig yn golygu llai o gyfleoedd cyflogaeth o fewn ardal Carreglefn. |

ATODIAD 1

| 3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| • A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. |
| • A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? E.e. darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon.<br><br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – e.e. gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ac ati? | Ydy – gweler isod.<br><br>Ydy – os gwireddir y cynnig, bydd amryw o weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Ydy – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal ag yn y clybiau gofal plant a brecwast cyn ysgol.<br>Yn rhannol – Ni fydd gwasanaethau newydd o reidrwydd ar gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llanfechell, a allai arwain at weithgareddau allgyrsiol newydd, oherwydd cynnydd yn y galw.<br>Ydy – os gwireddir y cynnig, byddai gweithgareddau'r Urdd yn parhau yn Ysgol Llanfechell. |

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig? | Nac ydy – Nid yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod yn hysbysu llawer o randdeiliaid a sefydliadau allanol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i: rhieni, staff, cyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a thref ac ati) os ac pan bydd Rhybydd Statudol yn cael ei gyhoeddi. O ddyddiad cyhoeddi'r Rhybydd Statudol, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd |

| **3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| <br><br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br><br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig<br><br>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.<br><br>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.<br><br>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2022 - 2032 yn y ffyrdd a ganlyn:<br><br>**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 2**: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 5**: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.<br><br>Bydd y Cylch Meithrin, sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol Llanfechell, yn darparu sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'r plant cyn iddynt drosglwyddo i Ysgol Llanfechell. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 a 2 uchod.<br><br>Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion.<br><br>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol categori 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgolion yn anelu at ddatblygu'r Gymraeg, a nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref yn cael ei werthuso'n flynyddol trwy ddata a gafwyd o CYBLD. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i'r |

ATODIAD 1

| **3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | Fforwm Iaith Sirol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan y Fforwm Iaith Sirol. |

| **3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| Pa effeithiau ydych chi wedi'u nodi (h.y., crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r deilliannau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r deilliannau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Y prif effeithiau cadarnhaol a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig yw:<br>• Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br>• Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion.<br>• Gall mwy o blant ifanc Carreglefn dderbyn Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o oedran iau, gan fod Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg ar dir Ysgol Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol. |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.<br><br>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal |

ATODIAD 1

| 3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu | |
|---|---|
| | Cododd rhai ymatebwyr i'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.<br><br>Disgwylir i'r effaith hon (o'r cynnig hwn) fod yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:<br>▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.<br>▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen. |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu'r Gymraeg.<br><br>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i gefnogi'ch asesiad: | ▪ CYBLD 2023 – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion<br>▪ Niferoedd ar y gofrestr 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024)<br>▪ Ystadegau Medi 2023 a dderbyniwyd gan penaethiaid<br>▪ Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn<br>▪ Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. |

ATODIAD 1

| **3.6 Ymgynghori**<br><br>**I'w ddiweddaru os bydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol** | |
|---|---|
| Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg? | Gan bod llai na 10 disgybl cofrestredig pan gynhelir y cyfrifiad yn mis Ionawr, mae deddf 2013 yn caniatáu awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach ar gyfer cynnig megis yr un yma, sydd yn golygu na fydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol. Fodd bynnag os ac pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi Rhybydd Statudol ar gyfer y cynnig, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu i'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu), ac gall unrhyw sylwadau / gwrthwynebiadau gael ei anfon i sylw'r Cyngor. |
| Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Gweler uchod |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Wedi i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig |

| **3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| Crynhowch eich cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb** | Amherthnasol ar hyn o bryd. |
| Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | Defnyddir y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynllunnir ar ôl cwblhau'r asesiad. |

ATODIAD 1

## 4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig i "**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y disgyblion yn Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd, a thros y 4 cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol ac yna'r nifer a ragwelir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd â rhagamcanion disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen:

**Niferoedd disgyblion yn y gorffennol**

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys Meithrin | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2020 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2021 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2022 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2023 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2024 | % Lleoedd dros ben Ionawr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 15 | 12 | 10 | 10 | 9* | 80% |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 62 | 66 | 74 | 77 | 72 | 32% |

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6.

Yn Ionawr 2024, roedd 9 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Carreglefn, gyda 8 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD

Yn Ionawr 2024, roedd 72 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Llanfechell (heb gynnwys Meithrin), gyda 65 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD.

**Rhagamcanion 5 mlynedd 2024-2028**

| Ysgol | Capasiti – heb gynnwys Meithrin | Niferoedd Disgyblion Medi 2023 | Rhagamcan Medi 2024 | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 46 | 9 | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Llanfechell 3-11 | 106 | 73 | 74 | 65 | 61 | 57 | 53 |

**Rhagamcanion Disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen**

Mae rhagamcanion yn cadarnhau y byddai niferoedd disgyblion wedi'u cyfuno yn disgyn i 57 erbyn 2028. O ganlyniad, mae'r cynnig i "**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**" yn rhesymol. Mae'r capasiti y mae Ysgol Llanfechell yn ei ddarparu yn ddigonol ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod:

| Ysgol | Dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) – gan gynnwys unedau gyda chaniatâd cynllunio | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Carreglefn | 8 | 1 |
| Llanfechell | 12 | 2 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*[1]], ar gyfartaledd, 0.14 o blant oed ysgol gynradd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.14 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*[1] MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000

a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - Census 2021 geographies - Office for National Statistics (ons.gov.uk),

Mae'r tablau uchod yn dangos pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Carreglefn a Llanfechell.

| | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2024 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2025 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2026 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2027 | Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanfechell | 77 | 72 | 70 | 67 | 62 |

Gall rhieni ddewis anfon eu plentyn/plant i ba bynnag ysgol y dymunant.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Gorffennaf 2023:

- Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch.
- Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o'r dalgylch.

**Darpariaeth cyn ysgol**
Mae'r ddarpariaeth cyn ysgol ganlynol ar gael yn ardal Carreglefn, a Llanfechell:
Mae'r ddwy ysgol wedi'u cofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi tri'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn.

Rhagamcan o'r Lleoedd Meithrin:

| | Niferoedd meithrin cyfredol ar y gofrestr Ionawr 2024 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2024 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2025 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2026 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2027 | Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreglefn 3-11 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Llanfechell 3-11 | 6 | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r nifer o ddisgyblion meithrin a ragwelir yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell ar y cyd yw 8 pan fydd ar ei uchaf. Y rhif derbyn meithrin ar gyfer Ysgol Llanfechell yw 13. Felly mae'n rhesymol tybio y byddai nifer digonol o leoedd meithrin yn Ysgol Llanfechell pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Llanfechell yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Nid oes galw sy'n hysbys o fewn yr ardal am fath penodol o ddarpariaeth, e.e. darpariaeth â chymeriad crefyddol.

Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar y Cylch Meithrin, a gallai gael effaith gadarnhaol ar y darparwr (h.y. cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu). Arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2020, pan arfarnwyd bod Lles, Gofal a Datblygiad, Addysgu ac Asesu, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dda. Barnwyd bod yr Amgylchedd yn Ddigonol. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.

Nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.
Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliadau eraill.

ATODIAD 1
**Gwybodaeth am yr ysgolion**

**Ysgol Carreglefn (Carreglefn, Ynys Môn LL68 0PH)**

Adeiladwyd Ysgol Carreglefn tua 1899. Mae ganddi 3 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 64m$^2$, ac ystafell athrawon. Y tu allan mae ardal chwarae fechan a chae chwarae bychan y tu cefn i'r ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol yw tua164 m$^2$.

Yn Ionawr 2024: roedd gan Ysgol Carreglefn 9 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 5 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (56%).

Mae’r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy’n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Carreglefn 1 | Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Meithrin – Blwyddyn 6 |

**Ysgol Llanfechell** (Llanfechell**,** Ynys Môn LL68 0SA)

Adeiladwyd Ysgol Llanfechell tua 1980. Mae ganddi 4 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 86m$^2$, swyddfa ar gyfer y pennaeth ac ystafell athrawon. Mae gan yr ysgol hefyd nifer o ystafelloedd at ddefnydd y gymuned megis ystafell bwyllgora, ystafell clwb ieuenctid, ystafell gymunedol ac ati. Yn allanol mae ardaloedd chwarae caled a glaswelltog gyda chae pêl-droed wrth ochr yr ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol (gan gynnwys ardaloedd defnydd Cymunedol) yw tua565m$^2$.

Ym Medi 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 73 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 59 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (81%).

Mae’r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy’n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Llanfechell 4 | Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Meithrin a Derbyn |
| | Blwyddyn 1 – 2 |
| | Blwyddyn 3 – 4 |
| | Blwyddyn 5 – 6 |

**Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion**

Cafwyd manylion am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Darparodd Cyngor Cymuned Mechell hefyd fanylion am weithgareddau lleol a gynhelir.

**Gweithgareddau allgyrsiol ar gael i ddisgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

| **Ysgol Carreglefn Gweithgaredd** | **Yn ystod y tymor neu’r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clwb aml-weithgaredd | Tymor | Bob wythnos yn ystod y tymor ysgol |

ATODIAD 1

| Ysgol Llanfechell<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Urdd | Tymor | Misol – Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn |
| Clwb Coginio | Tymor | 20 gwaith y flwyddyn |
| Clwb Athletau | Tymor | Tymor yr haf |
| Codio Cyfrifiadurol | Tymor | Tymor y gwanwyn - Wythnosol |
| Clwb Ffilm | Tymor | Misol |

**Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell a ddefnyddir gan grwpiau lleol:**

| Ysgol Carreglefn<br>Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis |
| Cyngor Cymuned | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Chwe gwaith y flwyddyn |
| Pwyllgor Cymuned | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Tair gwaith y flwyddyn |
| Pwyllgor Maes Coffa | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Tair gwaith y flwyddyn |
| Gwasanaeth Cofio | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Blynyddol |
| Clwb Y Cen | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Clwb Clytwaith | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Arddangosfa Crefftau Clwb Clytwaith | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y flwyddyn |

| Ysgol Llanfechell<br>Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis |
| Clwb Pensiynwyr | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Cylch Meithrin | Tymor | Pedwar diwrnod yr wythnos |
| Pwyllgor Cymuned | | 6 gwaith y flwyddyn |
| Ffair Mechell | | Blynyddol |

ATODIAD 1

| Ysgol Llanfechell<br><br>Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Sefydliad y Merched | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | 11 gwaith y flwyddyn |
| Ffrindiau Mechell | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | 6 gwaith y flwyddyn |
| Môn Actif | Gwyliau | 3 gwaith y flwyddyn |
| Clwb Pabi | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Misol |
| Clwb Yoga | Gwyliau | 8 gwaith y flwyddyn |
| Ti a Fi | Tymor | Misol |

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Penaethiaid, mae cyfleusterau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu defnyddio gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

**Gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ger Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

Cafwyd y wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell yn 2019, ychydig cyn i'r pandemig Covid 19 ddechrau. Gan fod yr asesiad effaith yn ddogfen fyw, bydd cyfle i ddiweddaru'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Carreglefn | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|
| Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai adeilad yr ysgol yw'r unig le i gyfarfod. | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Llanfechell | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|
| Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai adeilad yr ysgol yw'r unig le sydd ar gael i gynnal cyfarfodydd. Tueddir i ymgymryd â gweithgareddau cymunedol o Adeilad yr Ysgol. | |

ATODIAD 1

**Gofal plant a gofal cyn ysgol ar gael yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:**

| Ysgol Carreglefn | Iaith | Yn annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |

| Ysgol Llanfechell | Iaith | Yn annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd yr ysgol | Llun - Gwener |

**Gweithgareddau cymunedol ar gael yn lleol:**

Cafwyd yr wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell yn 2019, ychydig cyn i bandemig Covid 19 ddechrau. Gan fod yr asesiad effaith yn ddogfen fyw, bydd cyfle i ddiweddaru'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

| Carreglefn | Amlder | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sefydliad y Merched | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Y Cen | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Gwau | Wythnosol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Dosbarth Clytwaith | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Chwist | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Bingo | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Capel Bethlehem | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Ysgol Sul | Wythnosol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Clwb Cinio | Pythefnosol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Cyngor Plwyf | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Yr Urdd | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Pwyllgor Cymuned | Bob yn ail fis | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Pwyllgor Cae Chwarae | Bob yn ail fis | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Ti a Fi | Wythnosol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Nosweithiau Cymunedol | Misol | Neuadd Gymuned Carreglefn |
| Etholiadau | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |

Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai'r ysgol yw'r unig leoliad addas i gyfarfod. Mae Neuadd Gymuned Carreglefn yn rhan o adeilad yr ysgol.

ATODIAD 1

| Llanfechell | Amlder | Lleoliad |
|---|---|---|
| Clwb Yr Urdd | Wythnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Chwist | Pythefnosol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Partïon Plant | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Ffrindiau Mechell – codi arian | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Clwb Lego | Gwyliau Ysgol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Ysgol Llanfechell – codi arian | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Ffair Mechell | Blynyddol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Sefydliad y Merched | Misol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Clwb Pensiynwyr | Misol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Clwb Hanes | Bob 3 Mis | Y Ganolfan Gymunedol |
| Rheolwyr Canolfannau | Bob Tymor | Y Ganolfan Gymunedol |
| Arddangosfeydd / cyfarfodydd | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |
| Etholiadau | Achlysurol | Y Ganolfan Gymunedol |

Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai'r ysgol yw'r unig leoliad addas i gyfarfod. Mae'r Ganolfan Gymunedol yn rhan o adeilad yr ysgol.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Llanfechell yn cefnogi ac yn ymgysylltu â disgyblion a rhieni Ysgol Carreglefn. Byddai pob disgybl yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fel y rhai a grybwyllwyd uchod, yn Ysgol Llanfechell. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar Ysgol Llanfechell i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer dewis a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Os gwireddir y cynnig, byddai Ysgol Llanfechell yn parhau i fod yn Ysgol Gymunedol. Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i weithgareddau a chyfleusterau Ysgol Llanfechell gael eu cynnal neu eu gwella.

**Pellter ac amser teithio**

Mae Ysgol Llanfechell tua 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn (Ffynhonnell – Google Maps).

Pe bai'r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai'n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu'r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn. Gan nad yw'r llwybr o Garreglefn i Lanfechell yn addas i ddisgyblion oed cynradd gerdded / seiclo i'r ysgol ac oddi yno, byddai'r Awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol, sy'n golygu y byddent yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r amser teithio o Ysgol Carreglefn ar fws i Ysgol Llanfechell tua 7 munud heb ystyried unrhyw stopio i godi disgyblion.

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).

- Daw 50% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 ddisgybl].
- Mae llai na 47% (7/15) o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.

ATODIAD 1

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).

- Daw 4% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 disgybl].
- Mae tua 78% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar batrymau teithio disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y byddai disgyblion Carreglefn yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Llanfechell gan nad yw'r llwybr yn addas i ddisgyblion oed cynradd i gerdded / seiclo i'r ysgol nac yn ôl.

Eisoes mae bws sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn. Ar wahân i'r pellter ychwanegol o 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau.

Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn.

Dywed Llywodraeth Cymru na ddylai disgyblion oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd o dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch. Mae'r un polisi hefyd yn datgan, "na fydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion meithrin rhan amser."

ATODIAD 1

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Er mwyn penderfynu ar effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, mae'r cynnig yn erbyn y meini prawf yn y tabl isod wedi'i nodi fel cadarnhaol os bernir ei fod yn fuddiol, negyddol os bernir ei fod yn niweidiol a Dim effaith os bernir nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol.

| Maen Prawf | Arsylwadau | Effaith<br>Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).<br>• Daw 50% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 Ddisgybl].<br><br>Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).<br>• Daw 4% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 Disgybl]. | Cadarnhaol | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo bydd dalgylchoedd Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu cyfuno.<br>Ar hyn o bryd mae 28% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, neu Ysgol Llanfechell o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol y maent yn ei mynychu.<br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a chan gymryd y bydd disgyblion o Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell, yn seiliedig ar ffigurau Gorffennaf 2023 byddai canran y disgyblion a fyddai'n mynychu ysgol y tu allan i'w dalgylch yn disgyn i 25%. |
| Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan | Mae pob ysgol yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol, fodd bynnag mae mwy o weithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell nag yn Ysgol Carreglefn. | Cadarnhaol | Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a |

ATODIAD 1

| Maen Prawf | Arsylwadau | **Effaith** Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau yn Ysgol Llanfechell. Rhagwelir y byddai defnydd cymunedol o Ysgol Llanfechell. Byddai'r awdurdod eisiau weithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn, fel y gellir parhau i'w ddefnyddio fel adeilad cymunedol. | | gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau.<br>Byddai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell. Byddai disgwyl i nifer y gweithgareddau yn Ysgol Llanfechell barhau os nad cynyddu. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol, mae'r gymuned yn gwneud defnydd sylweddol o'r adeiladau a thir yr ysgol. | Niwtral | Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau. |
| Effeithiau eraill - Trafnidiaeth | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau. Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn. | Niwtral | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol. |

ATODIAD 1

| Maen Prawf | Arsylwadau | **Effaith** Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Pe bai'r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai'n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu'r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn. | | |
| Effeithiau eraill ar y Gymuned | Gallai cau Ysgol Carreglefn gael effaith fechan ar atyniad yr ardal leol ar gyfer darpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â neu'n bwriadu cael plant. Fodd bynnag byddai digon o le yn Ysgol Llanfechell i dderbyn disgyblion o Garreglefn. Dim ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn yw Ysgol Llanfechell. Gallai hefyd wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. Cydnabyddir y gallai fod newid yn nemograffeg yr ardal dros amser. | Niwtral | Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe bai hyn yn digwydd, fe allai liniaru effaith posib cau Ysgol Carreglefn. |

## 5 CASGLIAD

Aseswyd y cynnig i ddechrau o ran ei effaith bosibl ar y canlynol:

- Cydraddoldeb
- Yr iaith Gymraeg
- Y Gymuned

Mae effaith y cynnig ar bob rhan wedi'i hasesu i ddechrau fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith Debygol ar y cam cynnig:** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith andwyol ar hyn o bryd. |
| Iaith | Ymddengys nad yw'r cynnig ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol gyffredinol ar yr Iaith Gymraeg. |
| Y Gymuned | Ychydig neu ddim effaith canfyddedig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall rhai agweddau fod yn gadarnhaol e.e. disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell. |

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Gwrthwynebu.**

***6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol***

***(Dyddiad cychwyn y ddyletswydd: 31 Mawrth 2021)***

**Beth yw'r Ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)

- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

### *7 Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol*

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - oll wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, cyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

ATODIAD 1

## *8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.